**Rhif:** WG52140

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

# Cynigion ar gyfer dull o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwelliant a'r Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16

Mehefin 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-058-4

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 10 Ionawr a 14 Mawrth 2025 i gasglu safbwyntiau ar ein polisi ar y defnydd o ddata ysgolion a data yr ydym eisoes yn ei gasglu a'i brosesu'n gyfreithlon. Mae hefyd yn nodi'r disgwyliadau i ysgolion ddarparu gwybodaeth.

## Gweithredu anghenrheidiol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Am fwy o wybodaeth:
Cangen Polisi Gwybodaeth Ysgolion a Dysgwyr
Is-adran Safonau, Gwelliant a Gwybodaeth
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ims@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o holl ddogfennaeth yr ymgynghoriad mewn ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad:

Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant: ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y system ysgolion

Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant: ar gyfer y cyhoedd

# Cynnwys


**Geirfa** **5**

**Crynodeb** **7**

Beth yw'r prif ystyriaethau? 7

Lle'r ydym ni ar hyn o bryd? 7

Y dystiolaeth o blaid newid 8

**Canfyddiadau** **9**

Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn cyd-fynd ag ethos ac uchelgeisiau ein Cwricwlwm i Gymru? 11

Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cymesur er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella (dull sy'n sicrhau bod y dysgwr wrth wraidd y broses ac nad yw'n annog system berfformiadol a arweinir gan atebolrwydd)? 13

Cwestiwn 3 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cynaliadwy er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella? 16

Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn fodd i feithrin dealltwriaeth gytbwys a chyfannol o ysgolion a dysgu ymhlith cynulleidfaoedd allanol, fel rhieni a gofalwyr? 18

Cwestiwn 5 – A oes unrhyw egwyddorion neu agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r ecosystem wybodaeth arfaethedig y dylid eu hychwanegu? 20

Cwestiwn 6 – Beth fydd effaith egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y gweithlu, gan gynnwys unrhyw effaith bosibl ar lwyth gwaith? 21

Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn ar egwyddorion yr ecosystem wybodaeth o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y dysgwyr hynny o gefndiroedd dan anfantais a'r dysgwyr hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)? 22

Cwestiwn 8 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (y Fframwaith 14 i 16) yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 gan gefnogi ein huchelgeisiau ehangach fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru ar yr un pryd? 23

Cwestiwn 9 – A ddylai unrhyw ddangosyddion ychwanegol gael eu cynnwys yn y fframwaith hwn er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant yn llawn? Rhowch fanylion. 26

Cwestiwn 10 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod sefydlu'r Fframwaith 14 i 16 yn cynorthwyo'r broses o gyfleu cwricwla a dysgu 14 i 16 mewn modd cydlynol yng nghyd-destunau ysgolion eu hunain, gan alluogi dealltwriaeth ystyrlon a theg? 28

Cwestiwn 11 – Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd wrth newid i ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16? 31

Cwestiwn 12 – Beth arall y bydd angen inni ei ystyried wrth ddechrau cysoni ein systemau adrodd sy'n darparu setiau data i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi prosesau hunanwerthuso gan ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16 hwn sydd ar gael i'r cyhoedd? 33

Cwestiwn 13 – A fydd angen canllawiau penodol ar yr agweddau ar y Fframwaith 14 i 16 lle y disgwylir i ysgolion ddarparu gwybodaeth? Rhowch fanylion. 35

Cwestiwn 14 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Fframwaith 14 i 16 yn helpu i ganolbwyntio ar nodau cyffredin Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr? 37

Cwestiwn 15 – I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd y Fframwaith 14 i 16 yn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu ac yn ei alluogi i barhau i ganolbwyntio ar ddarparu ar gyfer dysgwyr a'u helpu i wneud cynnydd? 39

Cwestiwn 16 – Beth fydd effaith y Fframwaith 14 i 16 ar y gweithlu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar lwyth gwaith? 41

Cwestiwn 17 – Beth yw eich barn ar effaith y Fframwaith 14 i 16 o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)? 43

Cwestiwn 18 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac effeithiau egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? 44

Cwestiwn 19 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg? 46

Cwestiwn 20 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith 14 i 16 ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? 48

Cwestiwn 21 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Fframwaith 14 i 16 er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu – yn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg? 49

Cwestiwn 22 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd. 51

**Casgliadau** **53**

Atodiadau 56

# Geirfa

**ADY**
Anghenion Dysgu Ychwanegol

**AoLE**
Meysydd Dysgu a Phrofiad

**Asesiadau Personol**
Asesiad cenedlaethol addasol mewn darllen a rhifedd, gorfodol i ddysgwyr o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 mewn ysgolion a gynhelir, a ddefnyddir i gefnogi cynnydd disgyblion trwy nodi a darparu adborth mewn meysydd o gryfder ac o ddatblygiad pellach posibl.

**AWCDS**
Set Ddata Graidd Cymru Gyfan

**Cwricwlwm i Gymru**
Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno fesul cam hyd nes y bydd, o fis Medi 2026 ymlaen, pob dysgwr 3 i 16 oed sy'n mynychu lleoliadau a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru. Dyhead y Cwricwlwm i Gymru yw y bydd pob dysgwr yn gadael addysg yn 16 oed gyda'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y byddant eu hangen i lwyddo, ac wrth ddatblygu'r galluoedd, ymagweddau a nodweddion a ddisgrifir yn y pedwar diben, fod hyn yn cynrychioli'r cam cyntaf mewn cefnogi pobl ifanc i ffynnu fel dysgwyr gydol oes.

**Cyfnod Allweddol 4**
O dan gwricwlwm 2008, mae hyn yn disgrifio Blynyddoedd Ysgol 10 ac 11 yng Nghymru a Lloegr, sydd fel arfer yn cynnwys dysgwyr 14 i 16 oed.

**Cymhwyster Galwedigaethol**
Rhaglen neu gwrs hyfforddi a luniwyd i arfogi pobl â sgiliau neu wybodaeth ymarferol ar gyfer llwybr gyrfa penodol.

**Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr**
Mae strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr yn nodi strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
Mae'n amddiffyn pobl Cymru rhag gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

**EOTAS**
Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**eFSM**
Cymwys am brydau ysgol am ddim (defnyddir y statws hwn yn aml fel dangosydd procsi anfantais economaidd-gymdeithasol)

**Estyn**
Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Fawrhydi yng Nghymru.

**FSM**
Prydau Ysgol am Ddim

**Fy Ysgol Leol**
Gwefan sy'n caniatáu ichi weld amrywiaeth o ddata ynghylch ysgolion a gynhelir yng Nghymru

**NEET**
Rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant *(Not in Employment, Education or Training)*

**Ôl-16**
Yr amser ar ôl i berson ifanc droi'n 16 mlwydd oed, fel arfer yn dilyn cwblhau TGAU neu gymwysterau cyfwerth.

**RVE**
Crefydd, gwerthoedd a moeseg *(religion, values and ethics)* – elfen orfodol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

**RSE**
Addysg cydberthynas a rhywioldeb *(relationships and sexuality education)* – elfen orfodol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

**Sgôr Pwyntiau Capio 9**
Dangosydd sy'n edrych ar naw TGAU neu gymwysterau cyfwerth gorau dysgwr Blwyddyn 11, gan gynnwys gofynion pynciau penodol.

**SIP**
Partner Gwella Ysgolion *(School Improvement Partner)* – rôl awdurdodau lleol wrth helpu ysgolion i wella

**TGAU**
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd, sef cymhwyster academaidd a gyflawnir fel arfer gan ddysgwyr 15 i 16 oed yng Nghymru a Lloegr.

**WIMD**
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

**Y Fframwaith 14 i 16 (LEIF)**
Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16

**Yr Hawl i Ddysgu 14 i 16**
Yr hawl i ddysgwyr 14 i 16 oed a nodir yn y canllawiau statudol ar ddysgu 14 i 16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru – fframwaith o bedair elfen sy'n darparu cyfeirnod cynllunio ar gyfer cynnig cwricwlwm ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11 wrth ddarparu proffil eang a chytbwys o ddysgu a phrofiadau i ddysgwyr.

# Crynodeb

## Beth yw'r prif ystyriaethau?

Ym mis Chwefror 2025, cafodd Miller Research eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer dull o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwelliant a'r Fframwaith Dangosyddion Hawl i Ddysgu 14 i 16 ('y Fframwaith 14 i 16'). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cefndir byr i'r maes polisi a'r ymgynghoriad cyn amlinellu canfyddiadau prif weithgarwch yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori penodol ar gyfer ysgolion a'r rhai ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Wrth i Lywodraeth Cymru symud ymlaen gyda'r rhaglen hon o waith, ategir y canfyddiadau hyn â dadansoddiad pellach sydd hefyd yn ystyried mewnbwn a gafwyd trwy gyfres o ddigwyddiadau arweinwyr 14 i 16 a fynychwyd gan uwch-arweinwyr 14 i 16 ysgolion ac unrhyw ystyriaethau ychwanegol a godwyd gan arweinwyr polisi addysg.  Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda'r sector wrth i'r manylion a fydd yn sail i'r elfennau a gadarnhawyd o'r trefniadau gwybodaeth gael eu datblygu ymhellach.

## Lle'r ydym ni ar hyn o bryd?

Mae'r cyfnod pan fo dysgwyr yn 14 i 16 oed yn cynrychioli amser allweddol yn eu taith addysg wrth iddynt gychwyn cymryd asesiadau allanol ac ennill cymwysterau a fydd yn cael effaith sylweddol ar eu dyfodol. Gyda'r Cwricwlwm i Gymru wedi cychwyn cael ei gyflwyno i ddysgwyr ym Mlwyddyn 7 naill ai ym mis Medi 2022 neu fis Medi 2023[1], bydd y flwyddyn academaidd nesaf yn cynrychioli'r adeg y bydd y dysgwyr cyntaf o dan y cwricwlwm newydd yn cyrraedd Blwyddyn 10, gyda disgwyl i'r iddo gael ei weithredu'n llawn ar draws y continwwm 3-16 y flwyddyn ganlynol (mis Medi 2026).

Fis Medi diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru i helpu ymarferwyr i gynllunio, gweithredu ac adolygu cwricwlwm cynhwysol i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 fel rhan o'r cwricwlwm 3 i 16. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r 'Hawl i Ddysgu 14 i 16', sy'n pennu bod yn rhaid i gynnig cwricwlwm ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11 ddarparu proffil eang a chytbwys o ddysgu a phrofiadau i ddysgwyr, a'r rheini wedi eu cynllunio i gynnwys 4 elfen:

- Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd
- Cymwysterau i annog ehangder
- Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm
- Myfyrio ar ddysgu a chynnydd a chynllunio Ôl-16.

[1] Cafodd ysgolion uwchradd ddewis i'w addysgu i Flwyddyn 7 yn 2022/23, fel y bwriadwyd yn wreiddiol, neu aros blwyddyn ychwanegol nes iddo hefyd ddod yn statudol i Flwyddyn 8 ym mis Medi 2023.

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at 'ecosystem wybodaeth' ddiwygiedig ac yn mynegi bwriad Llywodraeth Cymru i weithredu gofynion gwybodaeth atodol a threfniadau adrodd a fydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac amcanion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16.

## Y dystiolaeth o blaid newid

Mae cyhoeddi'r canllawiau dysgu 14 i 16, ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ecosystem ddata a gwybodaeth newydd (adroddiad a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2023) a chyd-drafod parhaus â phartneriaid wedi cyfrannu at ddatblygu set o gynigion ar y canlynol:

- Dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwelliant a fydd yn dangos cyfeiriad clir ar ein disgwyliadau sy'n gysylltiedig â hyn, a
- Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (y Fframwaith 14 i 16) sy'n rhoi eglurder ar gynigion ar gyhoeddi data perthnasol ar lefel ysgol i gefnogi'r polisi dysgu 14 i 16.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion hyn rhwng 10 Ionawr a 14 Mawrth 2025 a fydd yn gosod sail ar gyfer y camau nesaf wrth nodi ein dull, disgwyliadau a'r camau y bwriadwn eu cymry.

Mae'r crynodeb canlynol yn cyflwyno'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, wedi ei strwythuro fesul pob cwestiwn a ofynnwyd.

Mae'r adran casgliadau yn amlygu ymhellach rhai themâu allweddol a ganfuwyd o fewn yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

# Canfyddiadau

## Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad


Cafodd y 53 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u casglu ynghyd i ffurfio sail yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys 34 o ymatebion ar-lein a 19 o ymatebion ychwanegol i flwch negeseuon e-bost Llywodraeth Cymru. Cafodd un o'r ymatebion e-bost hyn ei gyflwyno fel ymateb dyblyg.

**Tabl 1 – Ymatebion a Dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad**

| Math o ymateb | Ymatebion a dderbyniwyd | Saesneg | Cymraeg | Dwyieithog |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus – cyffredinol | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Ymgynghoriad cyhoeddus – system ysgolion | 34 | 29 | 5 | 0 |
| Ymatebion e-bost – cyflwyno ffurflen ymgynghori | 15 | 12 | 1 | 2 |
| Ymatebion e-bost – cyflwyno ffurflen e-bost | 4 | 4 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

**Ffigur 1 – Dosbarthiad daearyddol ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad**




Ffynonellau data:
© OpenStreetMap
MapDataCymru
Llywodraeth Cymru 'Cynigion ar gyfer dull o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwelliant a'r Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16' ymatebion

Cafodd pum ymateb i'r ymgynghoriad ac un ymateb e-bost eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda dau ymateb e-bost arall yn cael eu derbyn yn ddwyieithog. Cafodd y gweddill – sef 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad a 16 o ymatebion e-bost – eu derbyn yn y Saesneg.

Mae Ffigur 1 (ar y chwith) yn rhoi dadansoddiad daearyddol o'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad trwy ddefnyddio'r codau post a ddarparwyd gan ymatebwyr. Derbyniwyd ymatebion ledled Cymru, gyda 27 wedi eu derbyn yn y de-ddwyrain, 7 yn y de-

Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

orllewin, 3 yng Nghanolbarth Cymru, a 13 yn y gogledd.

O’r ymatebion a dderbyniwyd, dangosodd 6 ohonynt fod ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru.

**Ymatebion y Tu Allan i’r Cwmpas**

Roedd nifer o ymatebwyr roedd eu hymatebion yn cyfleu safbwyntiau am gyflwyno cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru ac am ddiwygio cymwysterau yng Nghymru, a oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad penodol hwn. Roedd y Cwricwlwm i Gymru yn destun proses ymgynghori gynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, cyn ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd yn 2022. Roedd y polisi a’r canllawiau ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru hefyd yn destun proses ymgynghori lawn yn 2024 yn dilyn, a pharhau law yn llaw, â chyd-drafod uniongyrchol â rhanddeiliaid. Mae’r canfyddiadau a gyflwynir yma yn ymwneud â’r ymgynghoriad ac iddynt y nod o geisio barn ar y set o gynigion ar y canlynol:

- **Dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwelliant a fydd yn dangos cyfeiriad clir ar ein disgwyliadau sy’n gysylltiedig â hyn, a**
- **Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (y Fframwaith 14 i 16) sy’n rhoi eglurder ar gynigion ar gyhoeddi data perthnasol ar lefel ysgol i gefnogi’r polisi dysgu 14 i 16.**


Roedd hefyd amrywiaeth o ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad i elfennau na chynhwyswyd o fewn yr ymgynghoriad neu a oedd wedi cael eu camddehongli. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau gydag arweinwyr ysgolion ledled Cymru i alluogi Llywodraeth Cymru i siarad yn uniongyrchol gyda’r rhai a fyddai’n gweithredu’r newidiadau a gymeradwyir yn dilyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae teimladau cymysg ynghylch y newidiadau arfaethedig o ganlyniad i brofiad yn y gorffennol o ddiwylliannau perfformiad cystadleuol hanesyddol. Roedd cyfanswm cyffredinol yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn isel ac roedd llawer o ymatebion yn rhannu safbwyntiau’n ymwneud â chamddehongli’r cynigion. Lle bo hyn yn digwydd, mae wedi ei nodi o fewn pob cwestiwn.

Yn yr un modd, rhoddodd llawer o ymatebwyr atebion i gwestiynau y barnwyd eu bod yn fwy perthnasol i gwestiynau eraill. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y cwestiynau cynnar yn y ddogfen ymgynghori, gyda sylwebaeth ymatebwyr yn anelu tuag at agweddau a dangosyddion yn ymwneud â’r Fframwaith 14 i 16, yn hytrach nag egwyddorion yr ecosystem wybodaeth. Sylwodd y dadansoddiad hefyd ar dueddiad ymatebwyr a oedd yn ‘cytuno’ i ryw raddau â rhai datganiadau, ond yn mynd ymlaen wedyn i wneud sylwadau negyddol yn unig yn y sylwadau ategol ar gwestiynau penodol yr ymgynghoriad.

Lle bod hyn wedi digwydd, mae’r ateb sydd fwyaf perthnasol i bob cwestiwn wedi cael ei gynnwys o dan bob cwestiwn.

## Cwestiwn 1 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn cyd-fynd ag ethos ac uchelgeisiau ein Cwricwlwm i Gymru?

**Ffigur 2 – Cwestiwn 1: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos bod, o'r 52 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, 18 o ymatebwyr yn cytuno bod y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn cyd-fynd ag ethos ac uchelgeisiau'r Cwricwlwm Cymru. Roedd 4 ymatebydd ychwanegol yn cytuno'n gryf. Ar y llaw arall, roedd 9 ymatebydd yn anghytuno ynglŷn â hyn, 7 yn anghytuno'n gryf ac roedd 7 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 7 ymatebydd na roddodd ateb i'r cwestiwn hwn.

Mae'n bwysig nodi bod, o'r 52 ymatebydd a atebodd y cwestiwn caeedig hwn, 36 arall wedi rhoi sylwadau ychwanegol. O'r 36 hynny, barnwyd bod 14 ymateb yn amherthnasol neu y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn, gan gyfeirio'n bennaf at agweddau a dangosyddion penodol y Fframwaith 14 i 16, yn hytrach nag egwyddorion yr ecosystem gwybodaeth. Felly, nid yw'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad dilynol o'r cwestiwn hwn.

### Cytuno

O'r rhai a gytunai, disgrifiodd 3 ymatebydd egwyddorion yr ecosystem wybodaeth fel rhai eang a chytbwys, sy'n gydnaws â dull cyfannol y Cwricwlwm i Gymru o ganolbwyntio ar ddysgwyr ac ar ansawdd. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr egwyddorion 'materion cyd-destun' a 'hyblygrwydd' fel rhai sy'n cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm, tra bod un arall yn tynnu sylw at y drydedd egwyddor, sef 'cyfannol' fel un gydnaws iawn, sy'n cynrychioli symud i ffwrdd o fesurau perfformiad cyfyng. Ar ben hynny, teimlai 1 ymatebydd fod ethos y Cwricwlwm i Gymru o edrych ar ddilyniant dysgwyr yn ehangach na safonau academaidd yn unig yn cael ei adlewyrchu ym mwriadau egwyddorion yr ecosystem. Disgrifiodd un arall yr egwyddorion fel rhai wedi'u hystyried yn drylwyr, eu bod yn ddefnyddiol ac yn

darparu cyfeiriad clir i bawb a fydd yn ymwneud â defnyddio data, gan ddarparu fframwaith defnyddiol i gyfeirio yn ôl ato.

Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn cytuno yn rhybuddio am yr angen am fwy o fanylion ar sut y byddai'r egwyddorion yn cael eu cymhwyso mewn ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o ddata cyd-destunol a'r cydbwysedd perthnasol rhwng y defnydd o ddata ansoddol a meintiol. Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod angen i werth ychwanegol chwarae rhan allweddol yn yr ecosystem er mwyn mapio cynnydd dysgwyr a chysoni â'r Cwricwlwm. Mynegodd dau ymatebydd bryder y gallai feithrin effaith anfwriadol o gymharu eithafol rhwng ysgolion, sy'n groes i ethos y Cwricwlwm i Gymru. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd asesu potensial yr egwyddorion heb ystyried y Fframwaith 14 i 16 hefyd, ac i'r gwrthwyneb.

**Anghytuno**

Cyfeiriodd un ymatebydd a oedd yn anghytuno'n gryf at yr egwyddorion fel rhai 'rhy lym', gan fynegi pryderon bod casglu data yn debygol o gael ei reoli'n anghyson ar draws ysgolion. Dehonglai ymatebydd arall yr egwyddorion fel rhai sy’n helpu i hyrwyddo canlyniad ar sail cynnyrch yn hytrach na'r cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar broses a phwrpas, gan fynegi anesmwythder y gallai'r system arfaethedig ddychwelyd at hen arferion, er yn anfwriadol, a allai fynd yn groes i’r Cwricwlwm i Gymru.

Er bod y cwestiwn yn cyfeirio'n benodol at y defnydd cyffredinol o ddata a gwybodaeth ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth, roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn tueddu i feirniadu nad oedd y dangosyddion 14 i 16 yn gydnaws iawn ag ethos y Cwricwlwm i Gymru. Felly, er mwyn osgoi dryswch, rydym wedi ailgyfeirio'r ymatebion hyn o dan y cwestiynau ymgynghori perthnasol lle maent fwyaf addas. Bydd y ffaith bod yr ymatebion hyn wedi'u gwneud o dan Gwestiwn 1 yn cael ei amlygu'n glir.


**Ddim yn cytuno nac anghytuno**

O'r rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, disgrifiodd 1 ymatebydd yr egwyddorion fel rhai 'cydnaws' â'r Cwricwlwm i Gymru mewn theori, gyda'r gobaith y bydd yn cefnogi dull adeiladol o ddata sy'n cefnogi cydweithredu ac nid cydymffurfio. Fodd bynnag, unwaith eto, mynegwyd amheuon gan 2 ymatebydd o ran sut y byddai'r egwyddorion yn cael eu gweithredu yn ymarferol a’r teimlad oedd bod diffyg eglurder ynghylch pa ddata a gyflwynwyd a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, er bod 1 ymatebydd yn cytuno bod cydnawsedd rhwng egwyddorion yr ecosystem a'r Cwricwlwm i Gymru, nid oedd hyn ond yn yr ystyr eu bod wedi'u diffinio'n wael ac yn agored i'w dehongli.

Yn gyffredinol, mynegodd sawl ymatebydd ar draws cyfres o gwestiynau ymgynghori bryderon y gallai egwyddorion yr ecosystem wybodaeth greu math newydd o atebolrwydd yn anfwriadol.

## Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cymesur er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella (dull sy'n sicrhau bod y dysgwr wrth wraidd y broses ac nad yw'n annog system berfformiadol a arweinir gan atebolrwydd)?

**Ffigur 3 – Cwestiwn 2: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos bod, allan o'r 52 ymateb i Gwestiwn 2, ymatebwyr wedi'u rhannu o ran a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data i gefnogi gwerthuso a gwella. Allan o gyfanswm o 52 o ymatebwyr, roedd 17 ymatebydd yn cytuno, a 3 yn cytuno'n gryf. Ar y llaw arall, roedd 14 o ymatebwyr yn anghytuno, 5 yn anghytuno'n gryf 6 ymatebydd nad eodd yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 7 ymatebydd na roddodd ateb i'r cwestiwn hwn.

Mae'n bwysig nodi bod, o'r cyfanswm o 52 ymatebydd a atebodd y cwestiwn caeedig hwn, 36 ohonynt wedi darparu sylwadau ychwanegol. O'r 36 hynny, barnwyd bod 8 ymateb yn amherthnasol neu y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn, gyda'r mwyafrif yn cyfeirio at egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn ehangach na'u defnydd cymesur o ddata a gwybodaeth. Felly, nid yw'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad dilynol o'r cwestiwn hwn.

### Cytuno

O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd 6 ymatebydd yn teimlo bod egwyddorion yr ecosystem gwybodaeth yn ddigon eang a chytbwys i gefnogi defnydd cymesur o ddata. Yn ogystal, roedden nhw'n teimlo y bydd yr egwyddorion yn helpu i gefnogi'r defnydd o ddata wrth ganolbwyntio ar gynnydd dysgwr, yn hytrach na chanlyniadau yn unig, gan ganmol hyn am osgoi system atebolrwydd llym. Yn benodol, barnwyd bod yr egwyddor o ddefnyddio data mewn ffordd nad yw'n barnu yn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar gynnydd dysgwyr sy'n diwallu eu hanghenion unigol, yn hytrach na bodloni gofynion mesur perfformiad.

Roedd dau ymatebydd yn falch o'r cyfeiriad yn yr egwyddorion at ystyried data mewn cyd-destun ehangach, gan nodi ffactorau fel tlodi gwledig a chyfran y dysgwyr ADY y mae angen eu hystyried. Cydnabu un ymatebydd hefyd fod yr egwyddorion yn ddefnyddiol wrth rymuso addysgwyr, gan nodi disgwyliadau clir ynghylch data.

Fodd bynnag, mynegodd 3 ymatebydd rai amheuon hefyd. Roedd hyn yn cynnwys datgan y bydd, er bod yr egwyddorion yn gadarn, cymhwyso'r manylion yn y pen draw yn penderfynu a fydd data yn dod yn gyfrwng ar gyfer system sy'n cael ei yrru gan atebolrwydd, gyda galwadau am strategaeth weithredu. Roedd pryderon am gyhoeddi data cyhoeddus a'r canlyniadau anfwriadol a fyddai'n deillio, gyda'r potensial i sefydliadau fel Estyn roi pwysau ar ysgolion i ganolbwyntio ar berfformiad ar draul dysgwyr unigol. Ar ben hynny, nododd un cyfranogwr y bydd ysgolion yn cael trafferth gweithredu strategaethau cymorth effeithiol heb gyllid digonol.

O ran diwygiadau i egwyddorion yr ecosystem wybodaeth, awgrymodd 1 ymatebydd ddiwygio geiriad egwyddor 10 yng nghyd-destun defnyddio data'n ddeallus i gynnwys 'partneriaid addysg', fel awdurdodau lleol, yn ogystal ag ysgolion. Roedd hefyd yn teimlo bod egwyddor rhif 8, bod yn ddisgrifiadol ac nid yn feirniadol, yn briodol, ond pwysleisiodd y byddai’n rhaid i rywun ddefnyddio'r disgrifiadau hynny i wneud dyfarniad ar ryw bwynt. Roedd un arall yn eiriol am fwy o ystyriaeth ar sut i sicrhau bod y data yn gynhwysol, fel bod dealltwriaeth ymysg yr holl randdeiliaid. Yn olaf, galwodd 1 ymatebydd am ychwanegu egwyddor lefel uchel arall, y dylid adolygu'r wybodaeth a gyhoeddir yn rheolaidd a'i haddasu i liniaru unrhyw ymddygiadau gwael sydd wedi codi.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo bod effeithiolrwydd yr egwyddorion o ran cefnogi gwerthuso a gwella yn dibynnu ar adnoddau digonol, arferion data cyson, ac ymrwymiad ar y cyd ar draws y system i ddefnyddio data yn dryloyw ac yn adeiladol.

**Anghytuno**

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno bod egwyddorion ecosystem gwybodaeth yn cefnogi defnydd cymesur o ddata a gwybodaeth i gefnogi gwerthuso a gwella yn cyfeirio at risgiau canfyddedig ynghylch yr egwyddorion sy'n arwain at 'orlwytho data' yn ogystal â blaenoriaethu data’n anfwriadol dros anghenion dysgwyr unigol. Er bod rhai yn cydnabod bod yr egwyddorion yn anelu at osgoi 'systemau perfformiadol', roeddent yn mynegi amheuaeth ynghylch sut y byddent yn osgoi 'atebolrwydd eithafol' yn ymarferol, o ystyried cymaint mae’r diwylliant hwn wedi’i ymgorffori mewn sefydliadau fel Estyn ac awdurdodau lleol.

Ar y llaw arall, teimlai ymatebydd arall a oedd yn anghytuno y gallai'r egwyddorion symud pwyslais yn rhy bell o berfformiad mesuradwy, gan ei gwneud hi'n anoddach sicrhau cyrhaeddiad a dilyniant Ôl-16 ac Ôl-18 dysgwyr, yn enwedig heb strwythur clir ar gyfer cymharu cymwysterau ysgol. Yn yr un modd, roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai’r system hyblyg a anogir gan yr egwyddorion, heb oruchwyliaeth reoleiddiol gryfach, ganiatáu "ras i'r gwaelod" mewn safonau cymwysterau, gan niweidio ansawdd a chymhariaeth canlyniadau dysgwyr. Cefnogwyd y pwynt hwn gan ymatebwyr mewn perthynas â chwestiynau eraill, gyda lleiafrif yn teimlo bod angen rhywfaint o atebolrwydd er mwyn osgoi safonau rhag llithro mewn ysgolion.


Roedd un ymatebydd yn galw am wahaniaethu rhwng data sy'n ddefnyddiol i gynnal gwelliant, a data sy'n ddefnyddiol i rieni ddeall cynnydd plentyn, gan nodi camddealltwriaeth o'r defnydd disgwyliedig o ddata yng nghwmpas yr ymgynghoriad – pwynt a wnaed hefyd mewn ymateb i Gwestiwn 4.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr a anghytunodd yn galw am fwy o eglurder a chanllawiau er mwyn osgoi ysgolion rhag gorlwytho neu danddefnyddio data sydd ar gael.

**Ddim yn Cytuno nac Anghytuno**
Dim ond 1 ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno a roddodd fanylion pellach. Roedd yn cytuno'n fras y gall yr egwyddorion gefnogi defnydd cymesur o ddata sy'n canolbwyntio ar ddysgwr os cymhwysir yn gyson a thros amser. Fodd bynnag, roedd yn pryderu y gallai swm a chymhlethdod data arwain at leihau eglurder, gyda'r posibilrwydd o rwystro ymdrechion gwerthuso a gwella effeithiol.

## Cwestiwn 3 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cynaliadwy er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella?

**Ffigur 4 – Cwestiwn 3: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos bod ymhlith ymatebion i Gwestiwn 3, ychydig mwy o ymatebwyr yn anghytuno nag yn cytuno â'r datganiad bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cynaliadwy er mwyn cefnogi gwerthuso a gwella. Yn gyfan gwbl, cytunai 14 o ymatebwyr a chytunai 2 yn gryf, o gymharu â 11 oedd yn anghytuno a 7 yn anghytuno'n gryf. Roedd 11 o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 7 na atebodd.

Mae'n bwysig nodi bod, o'r cyfanswm o 52 ymatebydd a atebodd y cwestiwn caeedig hwn, 35 wedi rhoi sylwadau ychwanegol yn ogystal. O'r 35 hynny, barnwyd bod 6 ymateb yn amherthnasol neu y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn, gyda'r mwyafrif yn cyfeirio at lwyth gwaith yn fwy cyffredinol neu gyd-destun ehangach y defnydd o ddata i gefnogi gwerthuso a gwella. Felly, nid yw'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad dilynol o'r cwestiwn hwn.

### Cytuno

Roedd yr ymatebwyr a gytunai yn cyfeirio at yr egwyddorion fel rhai gwrthrychol, gan helpu i rymuso ysgolion ar gyfer hunanwerthuso a gwella (5). Y teimlad oedd y bydd yr egwyddorion, trwy osod disgwyliadau clir ynghylch defnyddio data, yn grymuso addysgwyr ac ysgolion yn y tymor hir i gefnogi dysgwyr yn well, rhannu arferion da a cheisio gwella mewn amgylchedd nad yw'n cael ei yrru gan dargedau perfformiad heb gyd-destun iddynt. Barnwyd gan un ymatebydd bod yr egwyddorion 'sydd wedi eu cyflwyno mewn ffordd hawdd ei defnyddio' a 'disgrifiadol, nid beirniadol', yn atgyfnerthu'r defnydd cynaliadwy o ddata, tra bod yr egwyddor o 'bwysigrwydd cyd-destun' yn cael ei nodi gan ymatebydd arall fel rhywbeth hanfodol wrth alluogi

ysgolion i nodi cryfderau, enghreifftiau o’r arferion gorau a meysydd i'w gwella trwy gymharu ag ysgolion mewn cyd-destun tebyg.

Mynegodd un ymatebydd a gytunai â'r cwestiwn sawl amheuaeth hefyd ar ba mor effeithiol fydd yr egwyddorion wrth gefnogi gwerthuso a gwella. Roedd hyn yn cynnwys y fformat o sut y bydd y data yn cael ei gyflwyno, gan nodi Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (AWCDS) fel rhai gwrthgynhyrchiol wrth geisio hunanwerthuso. Ar ben hynny, roedden nhw'n teimlo bod angen rhaglen o ddysgu proffesiynol ar ddefnyddio data a ffynonellau eraill o dystiolaeth mewn hunanwerthuso i gyd-fynd â'r egwyddorion.

**Anghytuno**
Mynegodd pedwar ymatebydd bryder y byddai'r defnydd ehangach o ddata a anogir gan egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn achosi baich gweinyddol yn hytrach na chefnogi gwerthuso a gwella. Yn ogystal, roedd yr egwyddor o gyhoeddi meddylgar yn achos arall o bryder i ymatebydd arall a fynegodd amheuaeth ynghylch sut y byddai cyhoeddi data yn cefnogi gwella ysgolion. Roedd yn tynnu sylw penodol at amseriad cyhoeddi fel problem, gan fod Cynlluniau Gwella Ysgolion (SIPs) yn cael eu creu fisoedd cyn i setiau data cenedlaethol gael eu rhyddhau.


Roedd ymatebwyr eraill a oedd yn anghytuno yn cyfeirio at bryderon y byddai'r egwyddorion yn annog gostyngiad mewn safonau (2), gydag ysgolion yn colli golwg bellach ar berfformiad ar lefel leol a chenedlaethol os nad oes canlyniadau wedi'u modelu ar waith. Dywedodd un ymatebydd fod diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch beth yn union y bydd yr ecosystem yn ei ddarparu i ganiatáu i ysgolion gefnogi gwerthuso a gwella. Yn olaf, cafwyd galwadau am ddull parhaus dros amser (1), yn ogystal â gwerthuso parhaus a hyblygrwydd i sicrhau bod yr egwyddorion wedi'u hymgorffori ar draws y system (1).

**Ddim yn cytuno nac anghytuno**
O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, dywedodd 2 yn benodol fod gan egwyddorion yr ecosystem wybodaeth y potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy o ddata i gefnogi gwerthuso a gwella trwy eirioli dull mwy cytbwys a chyd-destunol.

Fodd bynnag, mynegwyd sawl rhybudd gan ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys bod yr egwyddorion yn dwysáu llwyth gwaith, gan beryglu capasiti ysgol a'r angen am fwy o eglurder ac arweiniad ynghylch yr amrywiaeth o wybodaeth i'w hystyried, gan sicrhau cysondeb y dull gweithredu. Unwaith eto, galwodd 1 ymatebydd am adolygiad a hyfforddiant parhaus ar bob lefel i gyd-fynd â'r egwyddorion, yn ogystal ag amserlenni realistig clir ar gyfer ymgorffori'r system newydd ac adolygu cynnydd. Roedd ymatebydd arall yn croesawu’r pwyslais ar ddefnyddio'r data ar gyfer hunanwerthuso a gwella ond teimlai fod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer ysgolion sy'n amlinellu enghreifftiau o’r arferion gorau a’r arferion gwaethaf.

### Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn fodd i feithrin dealltwriaeth gytbwys a chyfannol o ysgolion a dysgu ymhlith cynulleidfaoedd allanol, fel rhieni a gofalwyr?

**Ffigur 5 – Cwestiwn 4: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos bod, o'r ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 4, mwy o ymatebwyr yn anghytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn fodd o feithrin dealltwriaeth gytbwys a chyfannol o ysgolion a dysgu ymhlith cynulleidfaoedd allanol nag oedd yn cytuno. Yn gyfan gwbl, roedd 15 o ymatebwyr yn cytuno, o'i gymharu â 9 a oedd yn anghytuno a 10 yn anghytuno'n gryf. Nid oedd dim ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r datganiad. Roedd 10 ymatebydd arall nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 8 heb ymateb.

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, rhoddodd 38 wybodaeth ychwanegol. O'r rhain, roedd 13 ymateb y tu hwnt i gwmpas uniongyrchol y cwestiwn hwn, gydag ymatebwyr yn cyfeirio at elfennau a mesurau penodol nad oeddent yn uniongyrchol berthnasol i egwyddorion yr ecosystem wybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys y trothwy 50 ymgeisydd ar gyfer cymhwyster,[2] y Sgôr Pwyntiau Capio 9, a'r angen i symud ffiniau graddau.

#### Cytuno

Roedd pedwar ymatebydd a gytunai â'r datganiad yn crybwyll bod yr egwyddorion yn ymgorffori golwg fwy cyfannol, gonest a chyflawn ar yr ysgol a dysgu. Roeddent yn eu canmol hefyd am ganiatáu tryloywder a galluogi rhieni i weld y darlun ehangach. Canmolwyd cynnwys yr egwyddor o 'ystyriaethau cyd-destunnol' gan 2 ymatebydd, gan eu bod yn teimlo y byddai'n caniatáu archwilio a deall ysgol gan gynulleidfaoedd allanol mewn ystyr llawer ehangach nag o'r blaen. Roedd sawl ymatebydd yn

[2] Mae hyn yn cyfeirio at gynnwys defnyddio data cymwysterau yn y Fframwaith 14 i 16 a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Os oes llai na 50 yn ymgeisio am gymhwyster, cynigir na fydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn rhagweithiol oherwydd anwadalwch tebygol mewn patrymau canlyniadau sy'n rhwystro dadansoddiad ystyrlon o'r data.

rhybuddio am yr angen am arweiniad/addysg ar gyfer cynulleidfaoedd allanol fel y gallant ddeall yn llawn bwysigrwydd agweddau beirniadol, megis cyd-destun. Mewn thema debyg, dywedodd 1 ymatebydd mai’r dull o adrodd, yn hytrach na'r egwyddorion eu hunain, yn y pen draw a fyddai’n penderfynu a oes gan gynulleidfaoedd allanol ddealltwriaeth gytbwys a chyfannol o ysgolion a dysgu.

**Anghytuno**
Thema gyffredin ymhlith ymatebwyr a oedd yn anghytuno oedd y byddai cymhwyso'r egwyddorion yn arwain at gymharu ysgolion gan rieni, gan gynyddu cystadleuaeth rhwng ysgolion a dinistrio diwylliant cydweithredol (3). Roedd un ymatebydd yn teimlo bod gormod o gynnwys yn yr egwyddorion i'w ddeall gan y rhai y tu allan i'r proffesiwn, tra bod un arall yn beirniadu'n benodol y ffordd gyffredinol y mae system addysg Cymru yn ceisio cyd-drafod â rhieni, gan ddweud nad oeddent yn gallu gweld sut y bydd yr egwyddorion yn lleihau'r pryderon hyn.

Roedd dau ymatebydd yn pwysleisio y bydd yr egwyddorion yn cefnogi golwg gyfannol ar berfformiad ysgol a dysgwyr, oherwydd diffyg mesur gwerth ychwanegol i ystyried mannau cychwyn dysgwyr a natur gyfyngedig data ansoddol a meintiol. Dywedodd un mai dim ond arolygiadau ysgol fydd yn rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr o berfformiad ysgol i gynulleidfaoedd allanol. Roedd ymatebydd a oedd yn anghytuno'n gryf yn teimlo y gallai cymhwyso'r egwyddorion ddarparu gwybodaeth annigonol ac amrywiol i rieni a gofalwyr, gan arwain at gamddehongli.

Yn olaf, gan adleisio ymatebion i gwestiynau eraill, roedd 2 ymatebydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro pa wybodaeth sy'n ddefnyddiol i rieni a gofalwyr ei wybod a sut mae hyn yn wahanol i ddata o ysgolion ar gyfer gwerthuso a chynnal gwelliant, gyda phryder y gallai ysgolion, os nad yw'r ddwy agwedd hyn yn cael eu gwahanu'n ofalus, fod o dan bwysau i gynhyrchu data sy'n blaenoriaethu canfyddiad allanol dros wellia ysgolion mewn modd ystyrlon.

**Ddim yn cytuno nac anghytuo**
Dywedodd dau ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno fod egwyddorion yr ecosystem yn caniatáu dealltwriaeth gytbwys a chyfannol o ysgolion. Roedd unrhyw rwystrau i ddealltwriaeth gynulleidfa allanol o ysgolion a dysgu yn ymwneud yn bennaf â ddangosyddion mewn perthynas â'r Fframwaith 14 i 16, gyda galwadau am fwy o eglurder ac arweiniad i gyd-fynd â'r fframwaith a'r dangosyddion arfaethedig. Mae'r rhain yn cael eu harchwilio ymhellach o dan y cwestiynau priodol.

## Cwestiwn 5 – A oes unrhyw egwyddorion neu agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r ecosystem wybodaeth arfaethedig y dylid eu hychwanegu?

O’r 32 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, teimlai 26 o ymatebwyr fod egwyddorion neu agweddau eraill sy’n gysylltiedig â’r ecosystem wybodaeth arfaethedig y dylid eu hychwanegu, tra bod 2 ymatebydd yn teimlo nad oedd. Roedd pedwar ymatebydd arall nad oeddent yn sicr.

**Oes**

Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at sawl maes i'w hystyried o ran egwyddorion neu agweddau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at yr egwyddorion ecosystem wybodaeth arfaethedig.

Roedd pedwar ymatebydd yn cyfeirio at bwysigrwydd cryfhau moeseg a threfniadau diogelu, gan gynnwys hawl dysgwyr i breifatrwydd, yn ogystal â thryloywder ac addasrwydd wrth ddefnyddio data dysgwyr, tra bod dau ymatebydd yn cyfeirio at bwysigrwydd mesurau diogelu fel egwyddor o ran atal camddefnyddio data, gan sicrhau ei fod yn cefnogi gwelliant yn hytrach na'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn 'fesurau cosbi'. Awgrymodd un ymatebydd restr hir o egwyddorion ychwanegol posibl gan gynnwys: Cynhwysiant, Sofraniaeth Data, Rhyngweithredu, Cynaliadwyedd, Sensitifrwydd Diwylliannol a Gwydnwch a Chydweithredu, gan nodi'r angen i sicrhau bod yr ecosystem yn deg, yn addasadwy, ac yn parchu anghenion amrywiol, tra'n parhau i fod yn ddiogel, yn gynaliadwy, ac yn ymatebol i gyd-destunau sy'n newid.

Roedd ymatebwyr yn teimlo hefyd fel y gallai fod angen i egwyddorion ecosystem wybodaeth gael eu datblygu ymhellach i fynd i'r afael â meysydd fel atebolrwydd, strategaethau ymyrraeth ac effaith llwyth gwaith, cymorth ôl-16 a thegwch a chyd-drafod â rhieni. Roedd 2 ymatebydd yn pwysleisio hefyd at y gallai'r egwyddorion gysylltu'n fwy penodol â'r canllawiau 14-16, tra bod 2 ymatebydd arall yn pwysleisio nad oedd digon o fanylion o fewn yr egwyddorion o ran cefnogi dysgwyr sy'n tanberfformio, gan amau sut y byddant yn cael eu cefnogi ar lefel system. Galwodd am gryfhau egwyddor 3 (cyfannol) i gynnwys manylion am beidio â darparu ystod gul o wybodaeth.[3]

Er ei bod yn egwyddor sy’n bod eisoes, ailbwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried cyd-destun gan bedwar ymatebydd. Yn benodol, cafwyd galwadau am fwy o ddefnydd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a chyllid ar gyfer pob disgybl fel mesurau i ystyried wrth edrych ar berfformiad ysgolion. Teimlwyd hefyd bod y Mynegai yn ddangosydd mwy addas na chymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim wrth bennu effaith tlodi / amddifadedd ar effeithiolrwydd dysgwyr. Roedd un ymatebydd yn teimlo mai egwyddor sydd ar goll yw sicrhau nad yw data yn cyfrannu a dyfnhau anghydraddoldebau rhwng ysgolion, yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig. Yn olaf, teimlai 1 ymatebydd, o ystyried y genhadaeth genedlaethol, fod lle i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth/egwyddor benodol.

[3] Mae’n bwysig nodi fodd bynnag fod egwyddor 3 eisoes yn nodi’n benodol ynghylch gorddibyniaeth ar ystod gul o wybodaeth

**Nac oes**
Credai un ymatebydd fod yr egwyddorion yn gytbwys ac yn ddigon eang gan eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir, tra bod un arall yn dymuno mwy o eglurder ynghylch egwyddorion presennol.

## Cwestiwn 6 – Beth fydd effaith egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y gweithlu, gan gynnwys unrhyw effaith bosibl ar lwyth gwaith?

O'r 37 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, teimlai 20 o ymatebwyr y byddai egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn cael effaith negyddol ar y gweithlu, teimlai 6 y byddent yn cael effaith negyddol a rhoddwyd ymateb niwtral gan 11 ymatebydd.

**Effeithiau negyddol**
Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn tueddu i wneud sylwadau yn ymwneud â'r effaith gyffredinol y byddai'r fframwaith a'r dangosyddion o dan y Fframwaith 14 i 16 yn ei chael ar y gweithlu, yn hytrach nag effaith egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn benodol.

Dywedodd 6 o ymatebwyr y byddai'r disgwyliadau adrodd a fyddai'n cyd-fynd â'r egwyddorion yn ychwanegu at lwyth gwaith athrawon, tra bod 3 ymatebydd yn mynegi pryderon ynghylch gallu athrawon i addasu i'r dull newydd o gasglu data sydd wedi'i ymgorffori o dan yr egwyddorion (yn enwedig os digwyddodd hyn yn absenoldeb hyfforddiant datblygiad proffesiynol ar y newidiadau). Roedd ymatebwyr yn gweld diffyg canllawiau clir mewn perthynas â disgwyliadau ynghylch cyhoeddi gan ysgolion, gyda phryderon ynghylch faint o wybodaeth gyd-destunol a gasglwyd a chymhlethdod dadansoddi a chyflwyno'r wybodaeth honno mewn ffordd ystyrlon.

**Effeithiau cadarnhaol**
Dywedodd lleiafrif o ymatebwyr y byddai egwyddorion ecosystem gwybodaeth yn cael effaith gadarnhaol, neu o leiaf effaith niwtral ar y gweithlu, gydag un ymatebydd yn honni y byddent yn gwneud trefniadau casglu data presennol yn fwy effeithlon, a thrwy hynny leihau'r llwyth gwaith (1). Roedd effeithiau cadarnhaol ychwanegol ar y gweithlu yn cynnwys y potensial i symud oddi wrth y set gul o fesurau sy'n cael eu gyrru gan berfformiad i werthuso perfformiad ysgolion ac felly lleihau'r pwysau atebolrwydd allanol sy'n wynebu ysgolion yn seiliedig ar y mesurau hyn (1). Ar ben hynny, roedd 3 ymatebydd yn teimlo bod hwn yn gyfle i athrawon ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr a diwylliant o fyfyrio ar y cyd. Awgrymwyd gan 1 ymatebydd y gall egwyddorion yr ecosystem wybodaeth gefnogi addysgwyr i allu esbonio'n well i ddysgwyr y llwybrau sy'n cael eu cynnig iddynt.

**Niwtral**
Dywedodd ymatebwyr niwtral y dylai'r egwyddorion fod yn symlach ac yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr. Rhoddodd un ymatebydd dri argymhelliad y credai y gallent helpu i leihau baich y gweithlu wrth weithredu egwyddorion yr ecosystem wybodaeth: darparu canllawiau clir a templedi adrodd safonedig, buddsoddi mewn offer digidol i gefnogi casglu a dadansoddi data, a sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer gweithredu.

Roedd ymatebydd arall yn awgrymu y gellid lliniaru effaith negyddol bosibl y newidiadau arfaethedig ar lwyth gwaith a chapasiti mewn ysgolion pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cyllid i bob ysgol gael mynediad at offeryn cyffredin ar gyfer olrhain data cymwysterau/cyrhaeddiad mewn ysgolion i'w helpu wrth ddadansoddi data.

**Dim ymateb**
Yn ogystal, roedd 15 o ymatebwyr na roddodd ymateb i'r cwestiwn hwn.

## Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn ar egwyddorion yr ecosystem wybodaeth o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y dysgwyr hynny o gefndiroedd dan anfantais a'r dysgwyr hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?

O'r 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 9 o ymatebwyr yn canolbwyntio ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag egwyddorion yr ecosystem wybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at y Fframwaith 14 i 16, y cysyniad o ychwanegu gwerthu, yn ogystal â chyflwyno'r cwestiwn o pa grŵp o ddysgwyr a fyddai'n cael eu cynnwys.


**Anghytuno**
Yn gyffredinol, roedd 11 ymatebydd yn anghytuno bod yr egwyddorion yn cefnogi dysgwyr unigol ac yn diwallu'r anghenion amrywiol. Tynnwyd sylw at yr egwyddor o adrodd a rhannu data gan un ymatebydd fel rhywbeth sy'n peri risg o adnabod dysgwyr unigol, yn enwedig mewn lleoliadau llai. Nodwyd hefyd gan ddau ymatebydd y gallai data atgyfnerthu anghydraddoldebau systemig yn hytrach na mynd i'r afael â nhw. O ystyried y gallai rhai ysgolion fod yn brin o'r adnoddau neu'r system i ddadansoddi data manwl o'r fath yn effeithiol, tynnwyd sylw pellach at yr angen posibl am seilwaith cenedlaethol mwy datblygedig gan un ymatebydd.

**Cytuno**
Roedd cyfanswm o 14 o ymatebwyr yn mynegi eu bod yn cytuno y gallai egwyddorion ecosystem wybodaeth gefnogi anghenion amrywiol dysgwyr unigol. O'r rhain a gytunai, roedd pedwar ymatebydd yn gwerthfawrogi'r potensial i egwyddorion yr ecosystem wybodaeth hyrwyddo tegwch, hygyrchedd, a chefnogaeth wedi'i deilwra i ddysgwyr difreintiedig a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Cyfeiriodd pum ymatebydd at yr egwyddor o hyblygrwydd fel rhywbeth hanfodol wrth ddiwallu anghenion esblygol dysgwyr. Soniodd tri ymatebydd am bwysigrwydd canolbwyntio ar ddysgwyr wrth gefnogi'r rhai sydd ag anghenion amrywiol a nodweddion gwarchodedig, gan esbonio y bydd yr egwyddor gyntaf ar 'ddull sy'n canolbwyntio ar ddysgwr' yn cefnogi'r nod hwn, gyda'r amod fod gofyn i ysgol gael y gallu staffio i sicrhau y gellir cyflawni hyn. Yn gyffredinol, gwelwyd bod yr egwyddorion yn cydnabod bod dull "un maint i bawb" yn aneffeithiol a'u bod yn hytrach yn hyrwyddo system sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr.

## Cwestiwn 8 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (y Fframwaith 14 i 16) yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 gan gefnogi ein huchelgeisiau ehangach fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru ar yr un pryd?

**Ffigur 6 – Cwestiwn 8: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart barn yn dangos bod cyfanswm o 18 o ymatebwyr yn cytuno a 2 ymatebydd arall yn cytuno'n gryf fod y Fframwaith 14 i 16 yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16. Ar y llaw arall, roedd 12 o ymatebwyr yn anghytuno, 5 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn anghytuno'n gryf ac 8 o ymatebwyr nad oedd yn cytuno nac anghytuno. Yn ogystal, roedd 7 o ymatebwyr na roddodd ateb i'r cwestiwn hwn.

**Cytuno**

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a gytunai fod y Fframwaith 14 i 16 yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 yn awgrymu y gellir sicrhau cydnawsedd trwy roi pwysau ar ysgolion i sicrhau bod yr hawl yn cael ei chyflawni. Ar ben hynny, y teimlad oedd y gallai'r Fframwaith 14 i 16 ganiatáu ychwanegu data cyrhaeddiad ar y Gymraeg, Saesneg a Mathemateg at wefan Fy Ysgol Leol er mwyn galluogi'r data i gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Roedd 2 ymatebydd a oedd yn cytuno yn teimlo bod y Fframwaith 14 i 16 yn gytbwys ac yn canolbwyntio ar y dysgwr. Soniodd ymatebydd arall sut mae'n teimlo bod cynigion y Fframwaith 14 i 16 yn gwneud newid bwriadol a chlir i ffwrdd o'r 'hen drefn' i rywbeth sydd â'r potensial i wella canlyniadau negyddol i addysgu a dysgu mewn modd ystyrlon, a thrwy hynny gefnogi'r Cwricwlwm a'r Hawl i Ddysgwyr 14 i 16.

Wrth ateb cwestiwn gwahanol, canmolodd un ymatebydd gynnwys dysgwyr EOTAS (addysg heblaw yn yr ysgol) yng nghwmpas y Fframwaith 14 i 16 fel tystiolaeth o gydnawsedd â Chwricwlwm Cymru. Canmolodd un arall y symudiad i ffwrdd o "chwarteli a chwinteli" fel rhywbeth sy'n cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Fframwaith 14 i 16 yn cyd-fynd â nodau'r Cwricwlwm i Gymru, dim ond llond llaw ohonynt a roddodd sylwadau

esboniadol ac roedd rhai (3) yn cynnwys rhybuddion ynglŷn â'u hymateb. Roedd hyn yn cynnwys:

- Pryderon am densiwn rhwng dull sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr o gyrhaeddiad/dilyniant hyd at 14 oed, a chymwysterau graddedig yn 14-16, gyda'r awgrym y gallai "gor-ddibyniaeth ar ddata penodol" arwain at ysgolion yn canolbwyntio ar bynciau penodol i "geisio cyrraedd y mesur perfformiad".
- Pryderon y gallai nifer y dangosyddion wneud y Fframwaith 14 i 16 yn rhy feichus i'w weinyddu a'i adrodd, gyda'r awgrym y byddai swm y data a adroddwyd ar bob cymhwyster yn ddiystyr i rieni, cyflogwyr neu randdeiliaid eraill ac y byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar gyfleu cynnydd dysgwyr o dan y Cwricwlwm i Gymru.
- Rhybudd a nodwyd gan 1 ymatebydd oedd: Er y byddai'r dangosyddion ar gyfer grwpiau o gymwysterau (e.e. y meysydd dysgu a phrofiad) yn helpu hunanwerthuso ac yn meithrin gwell dealltwriaeth o sut mae'r cwricwlwm wedi esblygu, mae absenoldeb mesur llythrennedd digidol yn anghydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru lle mae llythrennedd digidol yn thema drawsbynciol.

**Anghytuno**
Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno (12) neu'n anghytuno'n gryf (5) bod y Fframwaith 14 i 16 yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 a’r Cwricwlwm i Gymru yn crybwyll amrywiaeth o resymau. Roedd hyn yn cynnwys potensial y Fframwaith 14 i 16 i annog diwylliant perfformiol ymhlith ysgolion, gydag 1 ymatebydd yn awgrymu y gallai'r diwylliant hwn yn ei dro arwain at y Fframwaith 14 i 16 yn "cyfyngu’n anfwriadol yr hyn a ganolbwyntir arno”, wrth i ysgolion flaenoriaethu pynciau a gynhwysir yn y fframwaith, "yn hytrach na chofleidio uchelgeisiau ehangach y Cwricwlwm i Gymru yn llawn" neu flaenoriaethu "dulliau dysgu arloesol neu unigol." Cefnogwyd hyn gan ymatebydd arall a oedd yn teimlo y gallai'r Fframwaith 14 i 16 arwain at eithrio "pynciau carfannau bach" a allai "gyfyngu ar ddewis dysgwyr", gan fynd yn groes i ethos y Cwricwlwm i Gymru o sicrhau bod pob pwnc yn cael ei gynrychioli'n deg.

Teimlai pedwar ymatebydd a oedd yn anghytuno fod angen egluro rhai elfennau, gan gynnwys a fydd y meysydd dysgu a phrofiad yn cael statws cyfartal. Esboniodd un ymatebydd y byddai, os defnyddir gweddillion ar gyfer data cyd-destunol, angen eu darparu ar gyfer pob maes pwnc ym mhob gradd, gan arwain at ddadansoddiad hir ac anhylaw. Yn debyg i bryderon blaenorol a godwyd, roedden nhw'n teimlo y byddai dewis pynciau neu raddau penodol lle mae gweddillion yn cael eu darparu yn cyfleu'r neges bod rhai pynciau a rhai ffiniau graddau yn bwysicach, gan barhau â'r gor-ganolbwyntio ar bynciau penodol a throthwyon graddau penodol.

Codwyd pryderon hefyd gan 1 ymatebydd bod y Fframwaith 14 i 16 yn methu â mesur cynnydd dysgwyr dros amser (sef ei fod yn mesur cyrhaeddiad ar un pwynt mewn amser) felly nid yw'n adlewyrchu dilyniant dysgwyr drwy'r Cwricwlwm i Gymru. Soniodd ymatebydd arall ei fod yn anghytuno â'r pumed, y chweched a'r seithfed nodwedd drawsbynciol sy'n sail i'r dull o adrodd data dysgu 14 i 16. Roedd yn teimlo na ddylai'r data a adroddwyd fod o un math yn unig ac na ddylai fod polisi unffurf ar ba fathau o ddangosyddion a ddefnyddir, ond y dylai adroddiadau gynnwys amrywiaeth o wahanol ddangosyddion yn lle hynny. Dylai'r dewis o ddangosyddion gael ei arwain gan eu gwerth ymarferol a'u gwersi o effeithiau negyddol yn y

gorffennol, megis symud i ffwrdd oddi wrth Lefel 2 cynhwysol oherwydd ei ganlyniadau anfwriadol. Er ei fod yn cydnabod pryderon am gamddehongli, mae'n dadlau y byddai trothwy o 50 ymgeisydd yn cyfyngu ar y data sydd gael ar gyfer ysgolion uwchradd llai, ac yn awgrymu y byddai trothwy is, fel 15, yn fwy priodol. Roedd hefyd yn cefnogi rhywfaint o beidio â datgelu pob data ar lwyfannau cyhoeddus ond credai y dylai ysgolion a phartneriaid dderbyn data llawn, heb gyfyngiadau, ar gyfer hunanwerthuso.


**Ddim yn cytuno nac anghytuno**

Dywedodd un ymatebydd fod y Fframwaith 14 i 16 yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 a'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd yn teimlo bod y pwyslais ar brofiadau dysgu eang, data cyd-destunol, a dilyniant dysgwyr yn cefnogi dull cyfannol o ymdrin ag addysg. Fodd bynnag, roedd hefyd yn teimlo bod risg sylfaenol o atgyfnerthu, yn hytrach na chodi safonau os nad yw'r Fframwaith 14 i 16 yn cael ei feincnodi yn erbyn systemau perfformiad uchel, trwy normaleiddio disgwyliadau is yn hytrach na gyrru gwelliant parhaus. Roedd un ymatebydd yn trafod hefyd sut y gall y Fframwaith 14 i 16 gefnogi safonau uwch trwy ddefnyddio cymariaethau rhyngwladol i gryfhau meincnodi a sicrhau bod y dangosyddion yn hyrwyddo ymestyniad a her gwirioneddol.

Soniodd ymatebydd arall sut mae'n anodd barnu graddau'r cydnawsedd nes bod rhagor o wybodaeth a chanllawiau yn cael eu rhyddhau. Yn benodol, roedd yn galw am wybodaeth ynglŷn â'r "mesurau newydd yng Nghyfnod Allweddol 4", sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adrodd ar ddata ar lefel ysgol yn y dyfodol, a beth fydd y gofynion adrodd ar gyfer ysgolion wrth i'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 gael ei weithredu. Teimla hefyd fod diffyg eglurder o hyd ynglŷn â'r cymwysterau newydd Gwneud-i-Gymru ac a fydd y rhain yn diwallu anghenion pob dysgwr.

## Cwestiwn 9 – A ddylai unrhyw ddangosyddion ychwanegol gael eu cynnwys yn y fframwaith hwn er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant yn llawn? Rhowch fanylion.

### Ffigur 7 – Cwestiwn 9: Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 9, gyda 18 o ymatebwyr yn awgrymu y gellid cynnwys dangosyddion ychwanegol fel rhan o'r Fframwaith 14 i 16, tra bod 15 o ymatebwyr yn awgrymu na ddylid cynnwys dim dangosyddion ychwanegol. Dywedodd 10 o ymatebwyr nad oeddent yn sicr a ddylid cynnwys dangosyddion eraill, ac roedd 9 o ymatebwyr na roddodd ateb i'r cwestiwn hwn.

**Dylai**

Yn gyffredinol, dywedodd ymatebwyr a awgrymai y gellid cynnwys dangosyddion ychwanegol fel rhan o'r Fframwaith 14 i 16 eu bod yn teimlo bod y fframwaith presennol yn rhy 'gul'. Roedd y dangosyddion ychwanegol a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys sut y gallai mesur gwerth ychwanegol, a awgrymwyd gan 7 ymatebydd, helpu i asesu gwelliannau a wnaed i gynnydd dysgwyr dros amser, a dangos effaith addysgu ar bob dysgwr yn effeithiol, gan gynnwys y rhai sy'n dechrau o linell sylfaen is. Galwodd dau ymatebydd yn benodol am werth ychwanegol ar gyfer grwpiau agored i niwed, gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli mewn data ôl-16.

Awgrymwyd data cyd-destunol ychwanegol gan 3 ymatebydd gan gynnwys y potensial i gynnwys gwybodaeth ddemograffig ynghylch cyfansoddiad y boblogaeth disgyblion er mwyn gosod cyd-destun effeithiol i ganlyniadau ysgol a darparu gwybodaeth a allai osod sail ar gyfer barn rhanddeiliaid allanol ynghylch effeithiolrwydd yr ysgol.

Yn ogystal, cyfeiriwyd at gynnwys mesurau llesiant gan 2 ymatebydd a awgrymodd efallai na fydd y fframwaith yn cyfleu'n effeithiol pa mor dda mae ysgolion yn cyfrannu at wydnwch emosiynol eu dysgwyr. Roedd mesurau llesiant a awgrymwyd

yn cynnwys defnyddio arolygon llais dysgwyr neu gynnwys arwyddion ehangach a allai adlewyrchu llesiant dysgwyr.
Roedd dau ymatebydd yn awgrymu sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer llythrennedd, rhifedd a gradd wyddoniaeth orau, y trothwy 5A*/A. Soniwyd hefyd am gymharu sut mae pob dysgwr wedi perfformio mewn pwnc nad yw'n bwnc craidd o'i gymharu â'u perfformiad yn y pynciau craidd fel dangosydd a allai fod yn ddefnyddiol at ddibenion hunanwerthuso. Yn yr un modd, roedd 1 ymatebydd yn galw am well dangosyddion ar gyfer pynciau llai er mwyn osgoi camddehongli data a lleihau'r risg y bydd ysgolion yn culhau'r cwricwlwm, tra gofynnodd un arall am gynnwys canrannau presenoldeb.

Roedd sylwadau ehangach yn cynnwys sut y byddai lleihau'r ffigur trothwy 50 ymgeisydd ar gofrestriadau arholiadau yn rhoi trosolwg mwy cynhwysfawr i gefnogi dysgu a gwella. Esboniodd un ymatebydd hefyd sut mae meincnodi rhyngwladol yn bwysig gan ei fod yn teimlo bod bwlch ar lefel y systemau yn y diffyg dangosyddion meincnodi rhyngwladol i asesu llythrennedd a rhifedd Cymru. Mae cynghorau hefyd wedi crybwyll yr angen am sgwrs strategol ehangach ynghylch defnyddio “Profion Cenedlaethol Cymru” (y deelir eu bod yn cyfeirio at Asesiadau Personol) a systemau data effeithiol ar lefel ysgol gynradd.

Mewn perthynas â chynllunio ôl-16, roedd un unigolyn, mewn ymateb i Gwestiwn 1, yn teimlo y byddai cynllunio gyrfaoedd yn elwa o fesuriadau safonol, y gellid eu darparu gan sefydliadau fel Gyrfa Cymru, a thrwy hynny leihau'r baich gweinyddol i ysgolion. Fel modd o bennu'r anghenion galwedigaethol a sgiliau cenedlaethol yng Nghymru, galwodd ymatebydd arall am siartio'r cofrestriadau ar gyfer gymwysterau, cyrchfannau dysgwyr ac a yw dysgwyr wedi aros yng Nghymru.


**Na / Ansicr**
Roedd ymatebwyr nad oedd yn nodi dangosyddion ychwanegol (12) neu nad oedd yn siŵr ynglŷn ag ychwanegu dangosyddion ychwanegol (11) yn amlygu’r risg o gynnwys gormod o ddangosyddion a allai wanhau eu heffaith a gorlwytho ysgolion yn eu gofynion casglu ac adrodd data. Soniodd pedwar ymatebydd eu bod yn credu bod pedair elfen bresennol yr Hawl i Ddysgu 14 i 16[4] yn briodol ac yn gymesur ac yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion yr ecosystem wybodaeth.

Awgrymai ymatebwyr y dylai athrawon ac arweinwyr barhau i ystyried y cynigion ac y gellid treialu'r cynigion gyda nifer bach o ysgolion, cyn eu cyflwyno'n llawn, i ganfod yn gynnar unrhyw ganlyniadau anfwriadol i’r fframwaith newydd.

[4] Y pedair elfen y cyfeirir atynt yma y ‘cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd’, ‘cymwysterau i annog ehangder’, ‘dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm’ a ‘myfyrio ar ddysgu a chynnydd a chynllunio ôl-16’.

## Cwestiwn 10 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod sefydlu'r Fframwaith 14 i 16 yn cynorthwyo'r broses o gyfleu cwricwla a dysgu 14 i 16 mewn modd cydlynol yng nghyd-destunau ysgolion eu hunain, gan alluogi dealltwriaeth ystyrlon a theg?

**Ffigur 8 – Cwestiwn 10: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 10. Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gymysg ond yn tueddu i anghytuno â'r awgrym bod y Fframwaith 14 i 16 yn cynorthwyo'r broses o gyfleu cwricwla a dysgu 14 i 16 mewn modd cydlynol. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno, gyda 14 o ymatebwyr yn dewis yr opsiwn hwn. Yn dilyn hyn, roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno ac 11 arall nad oedden nhw'n cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn. Yn olaf, roedd 5 ymatebydd yn anghytuno'n gryf a 2 yn cytuno'n gryf. Roedd naw ymatebydd na roddodd ymateb i'r cwestiwn hwn.

### Cytuno

O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno, ni roddodd eu mwyafrif sylwadau nac esboniad pellach. O'r rhai a wnaeth, roeddent yn dweud y bydd yr hyblygrwydd yn y Fframwaith 14 i 16 yn caniatáu i ysgolion gyd-destunoli eu cynnig a'u safonau cysylltiedig. Dywedodd un ymatebydd fod y cynnig yn "decach ar ysgolion ar sail cyd-destun."

### Anghytuno

Roedd cyfanswm o 14 ymatebwyr yn anghytuno a'r cwestiwn ac yn amlygu amrywiaeth o bryderon ynghylch y Fframwaith 14 i 16 a'i allu i gyfrif am wahanol gyd-destunau a phynciau dysgu.

Awgrymai dau ymatebydd fod y Fframwaith 14 i 16 yn ymddangos yn ffordd gymhleth o adrodd data a mynegwyd pryderon ynghylch sut y bydd ysgolion yn cael eu cymharu os ydynt yn cynnig pynciau gwahanol. Awgrymwyd hefyd gan 1 ymatebydd y byddai angen i'r Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i "adlewyrchu

cryfderau unigryw pob ysgol yn hytrach na gorfodi unffurfiaeth â dangosyddion haearnaidd."

Codwyd pryder gan 1 ymatebydd y gallai'r fframwaith annog "canolbwyntio culach ar ddata rhifol" gyda'r goblygiad y byddai angen i'r data hwn gael ei gyd-destunoli'n ddigonol ar gyfer rhieni a rhanddeiliaid ehangach. Er mwyn sicrhau tegwch, awgrymwyd gan 1 ymatebydd bod angen i'r Fframwaith 14 i 16 gyfrif am bob pwnc yn gyfartal ac osgoi bod yn rhy gymhleth neu safonol (er budd hygyrchedd a dealltwriaeth) yn ogystal ag osgoi'r potensial o ddyblygu canllawiau presennol (e.e. mewn prosbectws ysgol).

Roedd un ymatebydd yn awgrymu bod y "mesur cyd-destunol" arfaethedig yn fygythiad ac yn gyfle, a allai, unwaith y byddai wedi'i sefydlu, gael ei gysylltu â chyllid a darpariaeth ADY (yn y ffordd y defnyddir prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd). Felly, awgrymwyd ei bod yn hanfodol cael dangosyddion y Fframwaith 14 i 16 yn iawn oherwydd eu goblygiadau ar wneud penderfyniadau ehangach. Fodd bynnag, roedd 2 ymatebydd yn cydnabod y risg hefyd i'r Fframwaith gael ei weithredu'n anghyson ac nad yw'n "cyfleu cymhlethdod ac amrywioldeb cyd-destunau ysgol yn llawn, gan arwain at anghysondebau mewn dehongli."

Os nad yw carfanau llai yn cael eu hadrodd o dan y Fframwaith 14 i 16, awgrymwyd gan ddau ymatebydd y gallai hyn arwain at ysgolion llai (ac felly yn fwyaf tebygol, gwledig) yn cyfyngu eu cwricwlwm, neu adrodd dim ond ar pynciau uwchlaw'r trothwy 50 ymgeisydd, ac y gallai hyn roi'r argraff bod eu cwricwlwm yn gulach nag y mae mewn gwirionedd i randdeiliaid allanol. Cododd ymatebwyr bryderon y gallai'r Fframwaith a chynigion i eithrio data ar bynciau carfannau llai beri rhwystr i ysgolion rhag cynnig y pynciau hyn (e.e. Drama a Cherddoriaeth).

Codwyd pryderon gan ddau ymatebydd bod y Fframwaith 14 i 16 "wedi'i ddiffinio'n rhy wael" i fod yn ddefnyddiol ar gyfer cymharu ac y gallai ysgolion "gyflwyno eu fersiwn eu hunain o gynnydd" oni bai fod "profion safonedig cydlynol". Efallai y bydd ysgolion sydd â mwy o adnoddau yn ei chael hi'n haws dangos cydnawsedd eu cwricwlwm â'r Fframaith, gan anfanteisio ysgolion llai sydd â llai o adnoddau i ddangos hyn.

Yn olaf, awgrymodd 1 ymatebydd y gallai'r Fframwaith 14 i 16 fethu â chyfleu hyfedredd sgiliau dysgwyr neu ddiffygion mewn llythrennedd a rhifedd cyn dechrau'r ysgol uwchradd oherwydd diffyg adrodd data ar lefelau asesu cyn-uwchradd. Y teimlad oedd y gallai canolbwyntio ar raddau cyrhaeddiad yn hytrach na mesurau cynnydd olygu bod ysgolion yn canolbwyntio ymyrraeth a chefnogaeth i ddysgwyr ar y ffin C/D mewn modd anghymesur, yn ogystal â chynyddu'r pwysau ar ysgolion i dynnu disgyblion yn ôl o gymwysterau lle nad ydynt yn debygol o gyrraedd gradd C.

**Sylwadau niwtral**
Awgrymai un ymatebydd, a ddywedodd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, fod gan y Fframwaith 14 i 16 y potensial i gynorthwyo cyfathrebu, ond y gallai fod yn rhy gymhleth i gyflawni'r canlyniad hwn. Soniodd un arall am gryfderau'r Fframwaith wrth symud y tu hwnt i ganolbwyntio cul ar ganlyniadau arholiadau, gan gefnogi dealltwriaeth ehangach o ddarpariaeth ysgolion. Ar ben hynny, roedd yn teimlo bod y Fframwaith, trwy gynnwys profiadau dysgu ehangach a chynllunio ôl-16, yn cyflwyno

darlun mwy crwn o addysg yn hytrach na chyrhaeddiad yn unig. Fodd bynnag, roedd hefyd yn sôn am heriau sy'n gysylltiedig â risg o orsymleiddio neu ddiffyg cymaradwyedd a'r potensial am ddehongliadau cymysg. Roedd yn awgrymu gwelliannau o ran cefnogi'r Fframwaith gyda chanllawiau clir, safonedig ar gyfer sut mae ysgolion yn cyflwyno eu data cyd-destunol a sut y dylid ymgorffori data meincnodi rhyngwladol ar lefel system i ddarparu pwynt cyfeirio allanol ar gyfer safonau llythrennedd a rhifedd.

## Cwestiwn 11 – Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd wrth newid i ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16?

**Heriau**
Roedd 26 o ymatebwyr yn awgrymu heriau pellach a allai ddigwydd o ganlyniad i'r trawsnewidiad i'r Fframwaith14 i 16. Mae'r rhestr lawn o'r heriau a grybwyllwyd wedi'i hamlinellu isod.

Cyfeiriwyd at bwysau llwyth gwaith fel her gan 5 ymatebydd, gyda 3 ymatebydd yn nodi pwysau amser ac un ymatebydd yn nodi problemau staffio, gan gynnwys recriwtio a chadw staff. Roedd y farn hon yn gysylltiedig â chanfyddiadau bod angen mwy o amser i staff i gasglu ac adrodd data, yn ogystal â'r angen am fwy o amser i addasu i system newydd, yn enwedig yng nghyd-destun pwysau ehangach ar y sector.

Roedd 5 ymatebydd yn awgrymu y gallai fod yn her sicrhau bod y data yn y Fframwaith 14 i 16 yn ddealladwy i rieni a rhanddeiliaid, gyda'r angen posibl am ddadansoddiad symlach i'w gynnig i rieni. Cyfeiriwyd at weithredu a rheoli newidiadau wrth symud tuag at y Fframwaith 14 i 16 gan 4 ymatebydd, a oedd yn pwysleisio'r risg o ddryswch a chymhwyso anghyson ar draws ysgolion yn absenoldeb hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol gyda gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am eglurder data a beth i'w gynnwys er mwyn sicrhau bod setiau data a mecanweithiau adrodd ar waith a bod cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol ar draws pob un o bedair elfen y Fframwaith.

Roedd 4 ymatebydd yn cyfeirio at y trothwy o 50 ymgeisydd ar gyfer pynciau y mae perfformiad disgyblion yn cael ei adrodd arnynt fel her a allai ddal ysgolion yn ôl rhag cynnig pynciau sydd â charfanau llai neu annog ysgolion i annog dysgwyr yn erbyn dilyn pynciau penodol fel eu bod yn disgyn o dan y trothwy ar gyfer adrodd canlyniadau. Yn ogystal, cyfeiriodd 2 ymatebydd at ddefnyddio data a'i ddehongli'n ystyrlon fel her, yn enwedig os nad yw cyrhaeddiad blaenorol wedi cael ei benderfynu, a'r teimlad oedd y gallai ysgolion gael trafferth i ddangos patrymau perfformiad gwell dros amser os yw'r cyd-destun lle mae ysgolion yn gweithredu yn newid ac na chyfrifir amdano, er enghraifft newidiadau yn nalgylch yr ysgol.

Ar y llaw arall, roedd 2 ymatebydd yn crybwyll risg o atgyfnerthu disgwyliadau isel o ganlyniad i ddefnyddio data cyd-destunol heb feincnodau allanol ac anghysondebau mewn adroddiadau ysgol a allai arwain at ddehongliadau amrywiol ac anawsterau mewn cymharu.

Roedd dau ymatebydd yn cyfeirio at gydnawsedd â'r Cwricwlwm i Gymru fel her wrth weithredu'r Fframwaith14 i 16, a oedd o'r farn fod gan y fframwaith y potensial i danseilio'r effaith gadarnhaol y mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i chael hyd yma ar ehangder y cwricwlwm a diwylliant ysgolion, oherwydd y potensial i ddata a gyhoeddir yn allanol gael ei gamddefnyddio gan ysgolion a chyfrannu at gynnydd mewn straen a chystadleuaeth rhwng ysgolion (fel y nodwyd gan un ymatebydd) yn ogystal â'r risg y gallai'r trothwy 50 ymgeisydd gyfrannu at gulhau'r cwricwlwm fel yr amlinellir uchod.

**Cyfleoedd**
Roedd 18 o ymatebwyr yn tynnu sylw at rai o'r cyfleoedd wrth symud i'r Fframwaith14 i 16. Mae'r rhestr lawn o'r cyfleoedd a nodwyd wedi'u hamlinellu isod.

Roedd 3 ymatebydd yn cyfeirio at welliannau yn hyblygrwydd y cwricwlwm i addasu i anghenion dysgwyr fel cyfle posibl a gynigir gan y trawsnewid i'r Fframwaith 14 i 16. Ar ben hynny, awgrymodd 3 ymatebydd y gallai'r fframwaith newydd alluogi casglu data mwy ystyrlon ar sail cynnydd disgyblion yn hytrach na chanlyniadau arholiadau, ac y galli hyn gefnogi gwell cyfathrebu â rhieni, dysgwyr a rhanddeiliaid ynghylch cynnydd dysgwyr.

Yn ogystal, awgrymodd dau ymatebydd y gallai'r fframwaith newydd gynnig y cyfle i wella'r data sydd ar gael i gefnogi datblygiad ysgolion heb i ysgolion 'chwarae'r gêm' o ran gwneud newidiadau i'w gweithrediadau, er enghraifft newidiadau i amserlenni i gynyddu eu perfformiad a adroddwyd yn unol â’r fframwaith.

Cafodd y potensial i gyd-ddylunio'r cynnig gydag addysgwyr ei amlygu gan un ymatebydd. Awgrymwyd y byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ganfod y data mwyaf defnyddiol i'w gasglu, a datblygu dangosfyrddau hawdd eu defnyddio gyda hidlwyr (ee yn ôl grŵp blwyddyn, statws ADY, lefel amddifadedd) i gefnogi cynllunio a meincnodi. Y farn oedd bod y canolbwyntio ar hunanwerthuso a gwella ac adrodd cyd-destunol yn galonogol.

Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr unigol yn awgrymu bod cyfleoedd pellach ar gyfer y fframwaith newydd gan gynnwys y potensial ar gyfer adrodd mwy cyfannol y tu allan i berfformiad arholiadau (2), profiadau dysgu ehangach, llesiant a chynllunio ôl-16 (1) yn ogystal â'r potensial i gynnig cymorth ac arweiniad wedi'i dargedu’n well i ddysgwyr drwy'r fframwaith (1).

**Pwyntiau o eglurhad**
Cododd un ymatebydd bwyntiau o eglurhad pellach mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a oedd yn cynnwys yr amserlen bosibl ar gyfer gweithredu'r Fframwaith 14 i 16 ac a fyddai'n cyd-fynd â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnig naill ai her neu gyfle i dreialu dulliau newydd. Yn ail, awgrymai’r ymatebydd fod cyhoeddi cynllunio Ôl-16 yn rhaglen ehangach sy'n mynd y tu hwnt i ysgolion unigol ac sy'n gofyn am gynllunio ar lefel Awdurdod Lleol, law yn llaw â chynllunio ar lefel ysgol, i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu hymgorffori'n effeithiol ar draws Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

## Cwestiwn 12 – Beth arall y bydd angen inni ei ystyried wrth ddechrau cysoni ein systemau adrodd sy'n darparu setiau data i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi prosesau hunanwerthuso gan ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16 hwn sydd ar gael i'r cyhoedd?

### Pwyntiau ychwanegol

Crybwyllwyd pwyntiau ychwanegol gan 36 o ymatebwyr a oedd yn tueddu i ganolbwyntio ar ddibynadwyedd a sicrwydd data yn ogystal â'r atebolrwydd dros gyfleu data mewn modd fel y bydd ar gael i bawb o'r rhanddeiliaid.

Cyfeiriwyd at hygyrchedd ac atebolrwydd fel ystyriaeth gan 16 o ymatebwyr, a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y trefniadau sy'n sicrhau bod cyflwyno'r data yn glir ac yn hygyrch i'r holl randdeiliaid, yn enwedig rhieni, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid allanol yn deall yn ddigonol y data cyhoeddus sy'n cael ei rannu ac nad yw'r data yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cyfrannu at fwy o bwysau allanol ar ysgolion. Soniodd un ymatebydd am bwysigrwydd gwella ymarferoldeb data, gan ddefnyddio offer adrodd rhyngweithiol hawdd ei ddefnyddio i ddadansoddi data yn ôl rhyw neu anfantais, gan alluogi creu darlun cliriach o berfformiad ysgol.

Yn ogystal, tynnwyd sylw at bryderon data fel ystyriaeth gan 12 ymatebydd, gydag ymatebwyr yn canolbwyntio ar sut y byddid yn sicrhau cywirdeb data a ddarperir a chynnal ei dryloywder.

Amlygwyd capasiti a gallu fel pryder gan 6 ymatebydd a oedd yn awgrymu y gallai staff gael trafferth i addasu i'r gofynion newydd o dan y Fframwaith 14 i 16 ac y dylid darparu cymorth ychwanegol i ysgolion ar ffurf hyfforddiant proffesiynol wedi'i ariannu ar y newidiadau, yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer amser ychwanegol i staff i alluogi eu gweithredu. Tynnwyd sylw gan rai ymatebwyr at bryderon y byddai casglu data yn faich ac yn effeithio'n negyddol ar gapasiti staff ac yn arwain at "adrodd sy'n cael ei yrru gan gydymffurfiaeth" yn hytrach na gwerthuso ystyrlon.

Cafodd yr effaith ar arferion presennol ei grybwyll fel pryder gan 4 ymatebydd a dynnodd sylw at wrthdaro posibl rhwng y Fframwaith 14 i 16 ac arferion presennol mewn ysgolion ynghylch cefnogi cydweithredu, neu fesur cynnydd, er enghraifft.


Yn ogystal, mynegwyd amseru fel ystyriaeth gan 4 ymatebydd a oedd yn mynegi'r angen am gyfnod prawf gofalus a digon o amser rhagarweiniol i ganiatáu i'r Fframwaith 14 i 16 gael ei ymgorffori mewn arferion ysgol. Nododd un ymatebydd bryder arbennig ynghylch y gwrthdaro rhwng dyddiad rhyddhau'r Fframwaith ym mis Tachwedd a gofynion casglu data eraill sy'n digwydd ar yr un pryd ar gyfer adolygiadau'r hydref a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y gallu i weithredu. Ar y llaw arall, nododd 1 ymatebydd y budd posibl o gysoni'n well setiau data ysgolion ac awdurdodau lleol, lleihau dyblygu adroddiadau data a sicrhau bod ysgolion yn gallu asesu eu perfformiad eu hunain yn hawdd.

Yn olaf, ceisiwyd eglurhad gan 2 ymatebydd ynglŷn â rhai elfennau o'r cynnig. Gofynnodd un ymatebydd am eglurhad ynglŷn â rôl cymwysterau dynodedig gan gynnwys cymwysterau nad ydynt yn TGAU yn y setiau data hyn a sut y byddai'r graddau hyn yn cydweddu â setiau data lle nad yw cymwysterau wedi'u cynllunio ar

gyfer Cymru. O ystyried nifer y cymwysterau dynodedig yng Nghymru, nododd yr ymatebydd ei fod yn disgwyl y bydd y cymwysterau hyn yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y cynnig sydd ar gael i ddysgwyr. Hefyd, gofynnodd 1 ymatebydd am eglurhad ynghylch sut y byddai graddau dysgwyr yn cael eu hadrodd ar gyfer cymwysterau gyda chanlyniad dyfarniad sengl a dwbl mewn pynciau fel Saesneg.

## Cwestiwn 13 – A fydd angen canllawiau penodol ar yr agweddau ar y Fframwaith 14 i 16 lle y disgwylir i ysgolion ddarparu gwybodaeth? Rhowch fanylion.

**Ffigur 9 – Cwestiwn 13: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 13, gyda mwyafrif yr ymatebwyr (37) yn awgrymu y byddai angen canllawiau pellach ar agweddau ar y Fframwaith 14 i 16 lle y disgwylir i ysgolion ddarparu gwybodaeth. Yn ogystal, awgrymodd lleiafrif (10) o'r ymatebwyr gyfleoedd pellach a allai ddod yn sgil y pontio. Yn ogystal, mynegodd 5 ymatebydd ansicrwydd, ac roedd 1 ymatebydd yn anghytuno y byddai angen arweiniad pellach. Roedd 9 ymatebydd arall na roddodd ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r 23 ymatebydd a roddodd sylwadau pellach ar y cwestiwn hwn, gellir barnu bod 6 nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol, gyda rhai o'r ymatebion hyn yn canolbwyntio ar ganllawiau ar gyfer defnydd ehangach o dulliau data a gwybodaeth, yn hytrach na chanllawiau penodol ar yr hyn y byddai disgwyl i'r ysgol ei gyhoeddi. Roedd sylwadau eraill nad ydynt yn berthnasol yn cynnwys rhoi'r gorau i'r Fframwaith 14 i 16, cyfeiriadau at y trothwy 50 ymgeisydd ar gyfer cymhwyster ac amheuon pam y dylai ysgolion ddarparu unrhyw ddata o gwbl.

**Angen canllawiau**
Roedd ymatebwyr yn cydnabod manteision posibl darparu canllawiau cyffredinol ar gyfer adrodd a sicrhau tryloywder. Mae hyn yn cynnwys helpu i sicrhau data effeithiol o ansawdd da sy'n dangos gwahaniaethau cynnil mewn anghenion amrywiol o fewn carfannau ac yn adrodd ar gynnydd dysgwyr dros amser, gan ganolbwyntio y tu hwnt i'r cyrhaeddiad terfynol.

Roedd ymatebwyr yn mynegi pryderon cyffredinol ynghylch sut y gellid sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd data ac adrodd yn absenoldeb canllawiau a chytuno ar ddiffiniadau. Ymhlith y diffygion penodol a amlygwyd yn absenoldeb canllawiau roedd y gallu i adrodd ar brofiadau dysgu ehangach a sicrhau cysondeb dehongli a gweithredu rhwng gwahanol ysgolion a'i gilydd. Yn benodol, roedd 4 ymatebydd o'r farn y dylai canllawiau ymdrin yn fanwl ag union amgylchiadau a dulliau o adrodd i sicrhau hyn.

Tynnwyd sylw gan 2 ymatebydd at faterion yn ymwneud â chynllunio ehangach fel pryder y byddai angen i ganllawiau fynd i'r afael â nhw. Roeddent yn tynnu sylw at yr angen am ganllawiau ar gynllunio ar lefel Awdurdodau Lleol yn ogystal â gwybodaeth ar lefel ysgol, ac ar draws Cyfnodau Allweddol 3 a 4, ac nid Blwyddyn 11 yn unig. Awgrymodd un ymatebydd fod angen i ganllawiau sicrhau bod pynciau carfannau bach yn cael eu cynnwys, er mwyn osgoi culhau'r cwricwlwm.


Ar y cyfan, y teimlad oedd bod angen gwybodaeth ychwanegol ar y canlynol:

- Disgwyliadau ar ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Modelu gwybodaeth cyhoeddedig ysgol er mwyn cael cysondeb.
- Dysgu proffesiynol i gefnogi dehongli.
- Defnyddio data a chanllawiau ar gyfer rhanddeiliaid allanol.
- Myfyrdodau ar ddysgu a chynnydd a chynllunio Ôl-16.

Er gwaethaf galwadau am gysondeb, roedd 1 ymatebydd yn honni y dylai fod hyblygrwydd o fewn y gofynion hyn, ac y dylai ysgolion fod yn rhydd i ddisgrifio eu dull o gymwysterau ac arferion mynediad yn ansoddol, ond dylai fod yn sylweddol. Yn olaf, nododd 2 ymatebydd sut y dylid darparu cyd-destun addas gyda chanllawiau, gan gynnwys sut i gyflwyno ffactorau cyd-destunol heb danseilio'r uchelgais i yrru gwelliant, ac nid dim ond cymharu ysgolion ledled Cymru.

## Cwestiwn 14 – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Fframwaith 14 i 16 yn helpu i ganolbwyntio ar nodau cyffredin Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr?

**Ffigur 10 – Cwestiwn 14: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos ymatebion ymgynghori i Gwestiwn 14. Roedd yr ymatebwyr yn gymysg, gyda'r un nifer o ymatebwyr (15) yn cytuno neu'n anghytuno bod y Fframwaith 14 i 16 yn helpu i ganolbwyntio ar nodau cyffredin Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Roedd hyn yn cynnwys 4 ymatebydd yn cytuno'n gryf, 11 yn cytuno, ac 8 ymatebydd yn anghytuno, 7 yn anghytuno'n gryf. Roedd 12 ymatebydd arall nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn a 10 ymatebydd na roddodd unrhyw ymateb. Roedd hefyd 7 ymatebydd a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a roddodd ymatebion mwy cyffredinol i bolisi'r Gymraeg yn hytrach na'r trefniadau data.

### Cytuno

O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, dim ond lleiafrif a ddarparodd fanylion ychwanegol i gefnogi eu hateb. Awgrymodd yr ymatebwyr fod y Fframwaith 14 i 16 yn cefnogi nodau Cymraeg 2050 drwy gynnwys dangosyddion a metrigau perthnasol ar gyfer dysgu Cymraeg yn y fframwaith, yn y gwersi a'r tu allan iddynt.

Galwodd un ymatebydd am i ddata fod yn seiliedig ar garfan y dysgwyr yn hytrach na nifer yr ymgeiswyr, fel bod y data yn adlewyrchu pa mor llwyddiannus mae'r darparwr wedi datblygu sgiliau Cymraeg pob dysgwr.

Yn olaf, fel pwynt ar wahân nad yw'n gysylltiedig â'r Fframwaith a'r tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad, dywedodd tri ymatebydd y bydd uwchsgilio'r sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu addysg cyfan yn cynyddu'r gallu i allu cyflawni nodau Cymraeg 2050, ond y byddai hyn yn gofyn am amser a buddsoddiad sylweddol.


**Anghytuno**
Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf yn disgwyl na fyddai’r cynigion yn cael dim effaith ar Cymraeg 2050, gydag 1 unigolyn o'r farn nad oes digon o ganolbwyntio ar y polisi blaenllaw yn y ddogfen ymgynghori. Roedd ymatebwyr yn cyfeirio hefyd at ddiffyg hyder yn ei effaith oherwydd heriau ehangach yn y sector a oedd yn gysylltiedig â pholisi Iaith Gymraeg yn hytrach na'r trefniadau data.

**Ddim yn cytuno nac anghytuno**
Yn ogystal, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd yn cytuno nac anghytuno yn cynnig rhesymeg ychwanegol dros eu dewis. Fodd bynnag, mynegodd 1 ymatebydd bryder bod yn rhaid i'r gofyniad am adrodd llythrennedd a rhifedd yn Gymraeg fod yn gytbwys, er mwyn sicrhau nad yw'n cynyddu'r pwysau ar ddysgwyr ac athrawon mewn ysgolion nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg. Hefyd, dywedodd 2 ymatebydd y gallai ffigurau mynediad is, sy'n is na'r trothwy arfaethedig o 50 dysgwr, arwain at ddim gwybodaeth yn cael ei rhannu dros amser ar gyfer cymwysterau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gan beryglu uchelgeisiau Cymraeg 2050.

Roedd 2 ymatebydd arall yn teimlo nad oedd y Fframwaith 14 i 16 yn glir sut y bydd yn cyfrannu'n sylweddol at uchelgais Cymraeg 2050. Yn benodol, y gred oedd bod ei effaith yn debygol o fod yn gyfyngedig oni bai fod mesurau pellach yn cael eu cyflwyno i olrhain ac annog defnydd gweithredol o'r Gymraeg ac, yn hanfodol, cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg yn y system, gan eu bod yn teimlo na fydd adrodd ar ei ben ei hun yn sbarduno mwy o ddefnydd o’r Gymraeg na rhugldeb ynddi.

## Cwestiwn 15 – I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd y Fframwaith 14 i 16 yn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu ac yn ei alluogi i barhau i ganolbwyntio ar ddarparu ar gyfer dysgwyr a'u helpu i wneud cynnydd?

**Ffigur 11 – Cwestiwn 15: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, n=52

Mae'r siart bar yn dangos ymatebion i Gwestiwn 16, a oedd yn arbennig o gymysg neu'n ansicr pan ofynnwyd iddynt i ba raddau y maent yn cytuno y bydd y Fframwaith 14 i 16 yn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu ac yn ei alluogi i barhau i ganolbwyntio ar ddarparu ar gyfer dysgwyr a'u helpu i wneud cynnydd. Er bod 1 ymatebydd yn cytuno'n gryf â'r teimlad ac 8 ymatebydd yn cytuno, yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd 'ddim yn cytuno nac anghytuno', gyda 14 o ymatebwyr yn dewis yr opsiwn hwn. Roedd 11 ymatebydd arall yn anghytuno ac roedd 8 ymatebydd yn anghytuno'n gryf, gyda 10 ymatebydd na adawodd ddim ymateb.

**Cytuno (gydag amodau)**

Ni ddarparwyd unrhyw resymeg ychwanegol gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gytunai â'r cwestiwn y byddai'r Fframwaith 14 i 16 yn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu.

Roedd pedwar ymatebydd a gytunai y dylai'r Fframwaith14 i 16 sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu wrth ganolbwyntio ar ddefnyddio data sydd eisoes wedi'i gasglu. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'r Fframwaith yn galluogi athrawon i ganolbwyntio mwy ar gyd-destunoli, yn ogystal â chynnydd dysgwyr, yn hytrach na mesurau atebolrwydd llym. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i benderfynu i ba raddau y byddai systemau a roddir ar waith i'w gweithredu yn galluogi hyn.

**Anghytuno**

O'r ymatebwyr a anghytunai, mynegodd 7 ymatebydd bryder y byddai'r newidiadau yn arwain at fwy o 'aflonyddwch' yn y gweithlu. Y teimlad oedd y byddai'r newidiadau yn tarfu, yn enwedig yng nghyd-destun pwysau ehangach a diwygio ysgolion. Nododd un ymatebydd y bydd angen i staff ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd

cymwysterau ehangach i weithredu'r Fframwaith 14 i 16 yn effeithiol, gan effeithio ar eu llwyth gwaith yn y tymor byr. Roedd ymatebwyr yn awgrymu hefyd y gallai'r newidiadau gael effeithiau negyddol ar y gweithlu trwy ostwng morâl staff (5), ac effeithiau negyddol ar recriwtio (2) a chadw (1). Yn ogystal, awgrymodd 2 ymatebydd y byddai'r effeithiau hyn yn arwain at oblygiadau negyddol i ganlyniadau dysgwyr.

Roedd dau ymatebydd yn tynnu sylw at yr angen am dreialu'r newidiadau cyn eu gweithredu'n eang er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu, i'w ddilyn gan fonitro hirdymor dros amser.

**Ddim yn cytuno nac anghytuno**
Roedd ymatebwyr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno yn cydnabod pryderon ynghylch y potensial o darfu ar y gweithlu oherwydd y newidiadau. Roedd un ymatebydd yn tynnu sylw penodol at bryder y gallai adrodd carfannau bach oherwydd y trothwy 50 ymgeisydd ganiatáu adnabod athrawon mewn ysgolion llai lle mae llai o bynciau gyda mwy na 50 o ymgeiswyr. Awgrymwyd y gallai athrawon pynciau gyda mwy na 50 o ymgeiswyr gael pwysau anghymesur ynghylch perfformiad gan mai eu pynciau nhw fyddai'r unig bynciau a adroddir yn gyhoeddus arnynt, gyda'r potensial o effeithiau negyddol ar les athrawon i'r rhai yr effeithir arnynt.

Roedd ymatebydd arall yn disgwyl bod i'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 gynyddu llwyth gwaith yn y tymor byr. Roedd hyn yn cynnwys canfyddiad ynghylch yr angen i weithredu cymwysterau newydd law yn llaw â phrofiadau ehangach dysgwyr, yn ogystal â pharatoi dogfennau ysgol i'w cyhoeddi, megis adrodd gwybodaeth am grefydd, gwerthoedd a moeseg (RVE), addysg cydberthynas a rhywioldeb (RSE) a chyfleoedd dysgu ehangach. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn eu bod yn cyfeirio at y newidiadau i'r cwricwlwm sy'n ymwneud â'r polisi dysgu 14-16 yn achosi cynnydd mewn llwyth gwaith, yn hytrach na'r cynigion data a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori.

Fodd bynnag, awgrymai 2 ymatebydd y gallai craffu effeithiol, lleihau nifer y newidiadau ar ôl eu gweithredu a darparu hyfforddiant digonol i ysgolion helpu sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu.

## Cwestiwn 16 – Beth fydd effaith y Fframwaith 14 i 16 ar y gweithlu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar lwyth gwaith?

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymatebwyr roi sylwadau ar ba effaith y bydd y Fframwaith14 i 16 yn ei chael ar y gweithlu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar lwyth gwaith. Yn gyffredinol, gadawodd 35 o ymatebwyr sylwadau pellach ynglŷn â'u hateb i Gwestiwn 16. Roedd sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn sylwadau cyffredinol yn bennaf mewn ymateb i'r cynigion yn ei gyfanrwydd, a allai ddangos dryswch ymhlith ymatebwyr ynglŷn â'r hyn yr oedd y cwestiwn yn ei ofyn a sut roedd yr hyn a ofynnwyd yn wahanol i'r Cwestiwn 6 cynharach ynghylch effaith egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y gweithlu.

**Negyddol**
Derbyniwyd ymatebion negyddol tebyg fel rhan o Gwestiwn 6, lle rhestrodd ymatebwyr sylwadau cyffredinol gyda chydnabyddiaeth gyfyngedig o'r gwahanol elfennau o'r cynnig yr holir amdanynt. Roedd hyn yn cynnwys 12 ymatebydd a soniodd am y potensial am fwy o lwyth gwaith a chydraddoldeb llwyth gwaith i athrawon mewn Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Chymraeg y disgwylir iddynt fod yn destun craffu anghymesur (2).

Roedd disgwyl i fwy o lwyth gwaith godi'n bennaf oherwydd y baich gweinyddol cynyddol ar uwch arweinwyr ac athrawon y mae'n ofynnol iddynt ddarparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd ac adrodd ar sail amrediad eang o ddangosyddion, gan gynnwys cwricwlwm a chyfleoedd dysgu ehangach, ymwneud â dysgwyr a chynlluniau llesiant a threfniadau cynllunio a throsglwyddo ôl-16. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn mynegi pryderon ynghylch cymhlethdod adrodd data (2), ac y byddai hyn yn tynnu addysgwyr oddi wrth eu prif waith heb fawr o fanteision disgwyliedig.

Nododd dau ymatebydd effaith negyddol bosibl ar y gweithlu oherwydd diffyg eglurder ynghylch gofynion y Fframwaith a sut y gallai'r diffyg eglurder hwn arwain at gynnydd mewn llwyth gwaith. Yn ogystal, nododd 1 ymatebydd y gallai'r diffyg eglurder hwn arwain at weithredu'r Fframwaith14 i 16 yn anghyson rhwng gwahanol ysgolion a'i gilydd.

Yn gyffredinol, codwyd pryderon gan ymatebwyr am straen a llesiant negyddol staff a achosir gan gyflwyno'r Ffamwaith. Mynegodd pum ymatebydd amheuaeth y byddai gan staff y capasiti i addasu i newidiadau, tra bod 3 ymatebydd yn crybwyll ei botensial i waethygu problemau parhaus ynghylch recriwtio a chadw.

**Cadarnhaol (gydag amodau)**
Fe wnaeth cyfanswm o 5 ymatebydd dynnu sylw at effeithiau cadarnhaol posibl yr oeddent yn disgwyl i'r Fframwaith 14 i 16 eu cael ar y gweithlu. Nododd un ymatebydd ei fod yn disgwyl y byddai'r Fframwaith 14 i 16 yn galluogi lleihau pwysau atebolrwydd uchel sy'n gysylltiedig â'r mesurau presennol 'sy'n cael eu gyrru gan berfformiad' ac yn lleihau'r pwysau ar athrawon ac arweinwyr ysgolion i gyflwyno data mewn ffordd sy'n bodloni gofynion atebolrwydd allanol, ac yn arwain at ddefnydd mwy cytbwys a chyd-destunol o ddata i gefnogi sgyrsiau mwy ystyrlon ynghylch dysgu a gwella yn hytrach nag ymatebion adweithiol i fetrigau perfformiad.

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn cymedroli eu hymatebion hefyd. Nododd pedwar ymatebydd y byddai unrhyw effeithiau cadarnhaol ar lwyth gwaith yn amodol ar weithredu'r Fframwaith14 i 16 yn 'gywir' gyda'r potensial ar gyfer symleiddio pellach ar y gofynion, yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol i ysgolion gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i helpu i reoli llwyth gwaith. Roedd gan ddau ymatebydd rai ymholiadau ar 'synnwyr amser' a pha mor hir y byddai'n cyfeirio ato, ac a fyddai'n cynnwys unrhyw gyfartaleddau treigl dros y cyfnod amser dan sylw.

**Awgrymiadau**

Roedd yr ymatebwyr yn awgrymu y byddai angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cymorth dysgu proffesiynol ychwanegol (4) er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar y gweithlu a staffio ychwanegol (cymorth gweinyddol) (3) er mwyn hwyluso gweithredu'r newidiadau arfaethedig yn llyfn.

## Cwestiwn 17 – Beth yw eich barn ar effaith y Fframwaith 14 i 16 o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?

Rhoddodd hanner yr ymatebwyr (27) sylwadau ar effeithiau cadarnhaol neu negyddol roeddent yn eu disgwyl ar gefnogi anghenion dysgwyr unigol o ganlyniad i'r Fframwaith 14 i 16. O'r rhain, cyfeiriodd 11 o ymatebwyr at effeithiau negyddol disgwyliedig, ac awgrymodd 9 ymatebydd effeithiau cadarnhaol posibl, gyda rhybuddion pellach wedi'u hamlygu ynghylch yr hyn y byddai angen ei fod ar waith er mwyn gwireddu effeithiau cadarnhaol. Cyfeiriodd 7 ymatebydd arall at eu hymateb a roddwyd i Gwestiwn 7, gan awgrymu eto fod sylwadau wedi'u gwneud ynglŷn â'r cynigion yn gyffredinol yn hytrach nag mewn ymateb i elfennau penodol o'r cynnig.

**Cadarnhaol**
Cyfeiriwyd at y pwyslais ar hunanwerthuso, hyblygrwydd a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel effeithiau cadarnhaol posibl y Fframwaith 14 i 16, gan eu bod yn teimlo y gallai alluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall ac ymateb yn well i'r rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr bregus, gan gynnig y potensial iddynt ‘ganolbwyntio’n wirioneddol ar ddysgwyr' ac os cânt eu cyflwyno 'fel y bwriadwyd', gyfleu golwg fwy cyfannol o gynnydd dysgwyr ar sail mesurau penodol.

**Negyddol**
Roedd ymatebwyr a restrodd effeithiau negyddol posibl y Fframwaith 14 i 16 yn amau ei botensial i gefnogi dysgwyr unigol, gan awgrymu na fyddai'n mynd i'r afael â'r ffactorau cyd-destunol a strwythurol sy'n effeithio ar y gallu i gefnogi poblogaethau dysgwyr amrywiol, a chodi pryderon y byddai data yn 'gyrru' cyfeiriad gwneud penderfyniadau mewn ysgolion. Teimlai ymatebwyr nad oedd holl anghenion dysgwyr amrywiol yn cael eu hystyried fel rhan o'r Fframwaith 14 i 16 gyda rhai nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y casgliad data ac felly na fyddai'n agored i graffu ynghylch canlyniadau dysgwyr a allai fod yn wahanol.

Roedd un ymatebydd yn teimlo nad oedd anghenion dysgwyr mewn ysgolion Catholig wedi'u hystyried yn ddigonol, gan nodi pwysigrwydd astudiaethau crefyddol o fewn y cwricwlwm 14 i 16 ac nad yw trefniadau’r Fframwaith 14 i 16 yn cyfrif am rannu data ac adrodd i'r awdurdodau esgobaethol ac nad yw'n cydnabod rôl yr eglwys fel darparwr ysgolion.

Roedd canlyniadau anfwriadol posibl a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys y gallai dangosyddion safonedig a dibyniaeth ar ddata arwain at benderfyniadau a wneir i gefnogi anghenion darpariaeth eang (a allai fod â’r risg o anwybyddu anghenion amrywiol poblogaethau dysgwyr a heriau sy'n wynebu dysgwyr difreintiedig).

**Rhybuddion**
Roedd gan ddau ymatebydd farn gymysg ynglŷn â'r potensial i'r Fframwaith 14 i 16 gefnogi anghenion amrywiol dysgwyr, gan bwysleisio’r amodau y byddai angen eu bodloni er mwyn i'r Fframwaith 14 i 16 gael effaith gadarnhaol ar ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am fecanwaith canolog i

olrhain dysgwyr ôl-16, gan gydnabod bod hyn yn dod yn fwy heriol wrth i gyrchfannau a llwybrau galwedigaethol ddod yn fwy amrywiol, ac y byddai ei effeithiolrwydd wrth gefnogi anghenion amrywiol dysgwyr yn dibynnu ar addasrwydd mesurau a dangosyddion unigol.

**Eglurhad**
Yn olaf, gofynnodd 2 ymatebydd am eglurhad pellach, gan awgrymu eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ateb y cwestiwn. Roedd un ymatebydd yn holi sut fod sail y cwestiwn yn gysylltiedig â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16.

## Cwestiwn 18 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac effeithiau egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Ar y cyfan, roedd cymysgedd o safbwyntiau, gydag ymatebwyr yn tynnu sylw at y cyfle i'r egwyddorion hyrwyddo dwyieithrwydd mewn modd mwy gweithredol, yn ogystal â nodi ffyrdd ymarferol o liniaru effeithiau andwyol posibl ar y Gymraeg. Roedd rhai o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, Cwestiwn 19 a Chwestiwn 20 yn cynnwys cyfeiriadau at y tri chwestiwn. O ganlyniad, mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y cwestiwn gwreiddiol a atebwyd gan ymatebwyr.

**Cyfleoedd i Hyrwyddo Effeithiau Cadarnhaol**
Roedd ymatebwyr yn pwysleisio y byddai'r egwyddorion o adrodd a chyhoeddi, sef cyhoeddi data ar lefelau cyrhaeddiad mewn cymwysterau Cymraeg, law yn llaw â chysylltiadau penodol â nodau Cymraeg 2050, yn codi proffil sgiliau dwyieithog. Awgrymai ymatebwyr y gallai arferion o'r fath ddangos yn amlwg ymrwymiad ysgol i ddarparu amgylchedd dwyieithog a nodi pwysigrwydd dwyieithrwydd i ddysgwyr, rhieni a chymunedau ehangach. Yn ogystal, dadleuodd sawl ymatebydd y gallai adrodd mwy systematig ar berfformiad mewn cymwysterau yng Nghymru annog ysgolion i gynyddu nifer y ceisiadau i gael cymwysterau cyfrwng Cymraeg a chanolbwyntio ar wella lefelau perfformiad.

**Cyfleoedd i Liniaru Effeithiau Negyddol**
Er gwaethaf cydnabyddiaeth o'r cyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol, rhybuddiodd ymatebwyr hefyd fod rhaid, er mwyn gwireddu'r effeithiau cadarnhaol hyn, mynd i'r afael â heriau system ehangach sy'n mynd y tu hwnt i'r egwyddorion. Roedd hyn yn cynnwys yr argyfwng recriwtio presennol am athrawon Cymraeg a'r angen am ddatblygiad proffesiynol ehangach. Pwysleisiwyd bod sicrhau gweithlu digonol a medrus yn hanfodol ar gyfer cyflwyno cymwysterau Cymraeg ar y raddfa a'r ansawdd gofynnol. Er nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynigion data penodol, cododd ymatebydd bryder ynghylch goruchafiaeth barhaus Saesneg mewn ysgolion, hyd yn oed ymhlith disgyblion sy'n rhugl yn y Gymraeg, gan ei ystyried fel rhwystr sylweddol i gyflawni cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, cafwyd galwadau ar Lywodraeth Cymru i fynegi'n glir y diben y tu ôl i unrhyw gasglu data sy'n ymwneud â defnydd a dilyniant y Gymraeg (rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrechu i'w wneud fel rhan o'r cynigion hyn). Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i osgoi camddefnyddio'r data hwn at ddibenion atebolrwydd cul. Y farn oedd bod buddsoddiad mewn hyfforddiant staff a threialu systemau newydd yn hanfodol er mwyn cefnogi gweithredu'n effeithiol.

Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am newid diwylliannol dyfnach mewn ysgolion, law yn llaw â ffyrdd mwy cynnil a chyfannol o fesur cynnydd wrth hyrwyddo'r Gymraeg.

**Ansicr neu Ragweld Dim Effaith**

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweld cyfleoedd am effeithiau cadarnhaol, mynegodd 2 ymatebydd ansicrwydd am yr effaith gyffredinol. Dywedodd rhai nad oeddent yn credu bod yr egwyddorion yn debygol o gael effaith ystyrlon, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar y Gymraeg. Awgrymai ymatebydd arall yn yr un modd ei bod yn anodd rhagweld unrhyw effeithiau y gellid eu mesur mewn modd ystyrlon.

**Safbwyntiau Niwtral**

Roedd ymateb gan awdurdod lleol yn mynegi'r farn y byddai effeithiau tebygol cymhwyso egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar gyfer y Gymraeg yn niwtral ar y cyfan. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid cynnwys canlyniadau'r Gymraeg wrth adrodd, hyd yn oed pan fo maint carfan yn disgyn yn is na'r 'trothwy 50 ymgeisydd' presennol. Awgrymwyd y byddai hyn yn galluogi monitro cyflawniad yn y Gymraeg yn well ac yn caniatáu ymyraethau mwy penodol lle bo angen.

## Cwestiwn 19 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Cafwyd lefel is o ymateb i’r cwestiwn hwn a oedd yn gofyn a allai'r dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgol ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth gael effaith ar y Gymraeg. O'r 13 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 9 o ymatebwyr eraill nad oeddent yn siŵr, a 4 arall a gyfeiriodd at eu hymatebion i gwestiynau blaenorol, 2 i Gwestiwn 14 a 2 i Gwestiwn 18. Roedd rhai o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, Cwestiwn 18 a Chwestiwn 20 yn cynnwys cyfeiriadau at y tri chwestiwn. O ganlyniad, mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y cwestiwn gwreiddiol a atebwyd gan ymatebwyr.

**Cyfleoedd am Effeithiau Cadarnhaol**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn teimlo bod gan y dull o ddefnyddio data a gwybodaeth y potensial i gynhyrchu canlyniadau mwy cadarnhaol i’r Gymraeg, yn enwedig os caiff ei weithredu gyda chefnogaeth wedi'i dargedu. Cafwyd galwadau cryf am adrodd data yn ddwyieithog a darparu adnoddau dwyieithog, gyda’r naill a’r llall yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal o’r Gymraeg a'r Saesneg ar draws ysgolion.

Roedd 4 ymatebydd yn awgrymu y gellid cryfhau'r fframwaith drwy gynnwys dangosyddion ansoddol, megis gweithgarwch diwylliannol a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg. Roedd hyn yn gysylltiedig â phwyslais ehangach ar fesur newid diwylliannol a defnydd iaith bob dydd, yn hytrach na thrwy gymwysterau ffurfiol neu wersi ffurfiol yn unig, fel rhywbeth allweddol i gyflawni nodau iaith hirdymor.

Fodd bynnag, roedd 1 ymatebydd yn teimlo y gallai canolbwyntio cryfach ar lefelau cymwysterau a chyrhaeddiad gefnogi nodau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, drwy sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg ac yn llwyddo ynddynt. Yn ogystal, nodwyd mai gwybodaeth gyfyngedig iawn sydd am faint o ddysgwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws cyfnodau neu gyfnodau allweddol addysg. Roedd un ymatebydd yn awgrymu y byddai cyhoeddi data o'r fath, ar lefel yr ysgol a'r awdurdod lleol, yn werthfawr. Roedd hefyd yn argymell casglu ac adrodd data ar faint o ddysgwyr sy'n dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg (heblaw’r Gymraeg ei hun). Roedd yn teimlo y byddai amlygu’r ffigurau hyn yn helpu i olrhain dilyniant a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg dros amser.

Yn gyffredinol, roedd y fframwaith data ei hun yn cael ei ystyried gan lawer fel sbardun posibl ar gyfer newid cadarnhaol, a fyddai’n annog ysgolion i roi mwy o bwyslais ar y Gymraeg, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae gweithgarwch wedi bod yn gyfyngedig yn hanesyddol.

**Risgiau o Effeithiau Negyddol**
Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon hefyd. Er bod ymatebwyr yn gyffredinol gefnogol o ran cyfeiriad y cynigion, codwyd amryw o bryderon am effeithiau negyddol posibl, yn enwedig ynghylch trothwy ceisiadau am gymwysterau ar gyfer adrodd data. Nododd dau ymatebydd y gallai'r trothwy presennol o 50 ymgeisydd gael canlyniadau anfwriadol ar gymwysterau Cymraeg. Yn benodol, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, lle gall nifer mynediad i gymwysterau Cymraeg fod yn is, roedd yr ymatebwyr yn rhybuddio y gallai'r trothwy hwn arwain at sefyllfa lle nad oedd ddim gwybodaeth yn cael ei adrodd dros amser. Yn yr un modd, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg llai, gallai nifer is o gofrestriadau mewn cymwysterau penodol olygu nad yw data pwysig am ddarpariaeth a chyrhaeddiad y Gymraeg yn cael ei ganfod na'i rannu. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen mynd i'r afael â'r risgiau hyn er mwyn osgoi anfanteisio’r Gymraeg yn anfwriadol o ran gwelededd a monitro canlyniadau.

Yn ogystal, nododd 1 ymatebydd na fydd cyhoeddi data ar Gymraeg fel ail iaith o bosibl yn hyrwyddo tegwch iaith mewn gwirionedd ac y gallai hyd yn oed gael effeithiau anfwriadol a gwrthgynhyrchiol. Yn fwy eang, roedd yr her o sicrhau gwir gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn cael ei ystyried yn fater cymhleth ac yn dal heb ei ddatrys, er gwaethaf ymdrechion parhaus. Mae’n werth nodi bod 3 ymatebydd yn credu bod y dull yn annhebygol o gael unrhyw effaith ystyrlon.

## Cwestiwn 20 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith 14 i 16 ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi tystiolaeth sy'n dangos bod agwedd fwy cadarnhaol ar ddarparu mwy o gyfleoedd Cymraeg, ond roedd rhai pryderon ynglŷn â'r cyfleoedd presennol ac y gallai mwy o ganolbwyntio ar greu "newid diwylliannol" fod yn fuddiol. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion a dderbyniwyd y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn penodol a ofynnwyd, felly cyflwynir y canfyddiadau fel sylwadau mwy cyffredinol sy'n cyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg 14 i 16.

**Effeithiau cadarnhaol**
Soniodd 13 o ymatebwyr am effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr ar sicrhau bod gan y Gymraeg ddigon o le o fewn y cwricwlwm i ganolbwyntio'n ddigonol armo, yn ogystal â recriwtio digon o athrawon Cymraeg i fodloni'r gofynion angenrheidiol. Roedd dau ymateb yn awgrymu y dylai unrhyw newidiadau arfaethedig anelu at fwy o eglurder, symleiddio a llai o amrywioldeb. Roedd 2 ymateb arall yn awgrymu y dylid annog Cymraeg ym mywyd cyffredinol yr ysgol, megis mewn coridorau ac o fewn gweithgareddau. Gall cefnogi ysgolion gydag adnoddau dwyieithog ac olrhain dilyniant iaith annog hyn yn gyffredinol.

Roedd tri ymatebydd yn cytuno y bydd mwy o gydraddoldeb i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o ran y cymwysterau sydd ar gael. Roedd ymatebydd yn nodi y bydd cynnwys y Gymraeg ar draws continwwm dysgu Cymru, yn hytrach nag ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg, yn sicrhau bod pob ysgol yn gallu dathlu cynnydd eu dysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Roedd un ymatebydd yn teimlo bod angen datblygu system gydlynol a chysylltedig o gymwysterau sy'n hyblyg ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Roedd yn esbonio bod angen cael gweithlu yn ei le gyda digon o sgiliau Cymraeg i allu cyflawni ac asesu'r cymwysterau hyn yn llwyddiannus.

**Effeithiau negyddol**
Roedd pedwar ymateb yn sôn am liniaru'r effeithiau negyddol. Mae hyn yn cynnwys pwynt ehangach mewn perthynas â'r diffyg siaradwyr Cymraeg rhugl presennol fel rhwystr i weithredu, yn hytrach nag unrhyw fanylion ynghylch adrodd data. Roedd teimlad hefyd fod angen trin y cymhwyster Cymraeg newydd yn fwy gofalus; gallai canfyddiadau ei fod yn anodd neu'n ddiflas beri ymddieithrio.

Soniodd un ymatebydd sut y gallai mwy o bwyslais ar greu "newid diwylliannol" ystyrlon, lle mae'r Gymraeg yn cael ei gwerthfawrogi a'i mabwysiadu'n naturiol, helpu. Esboniwyd hyn fel 'mae angen gofal wrth ddefnyddio'r cymhwyster newydd - mae'r ffaith bod y cymhwyster newydd yn anodd, afrealistig a diflas, yn mynd i gael effaith negyddol, yn fy marn i.'

## Cwestiwn 21 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Fframwaith 14 i 16 er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu – yn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Cyfeiriodd 4 ymatebydd at gyfyngiadau’r metrigau presennol o fewn y fframwaith. Awgrymodd un ymatebydd na fydd y Fframwaith 14 i 16 o bosibl yn llwyr ganfod y defnydd o ddydd i ddydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, lle gall defnydd anffurfiol o iaith fod yn anoddach i'w fesur.

I fynd i'r afael â hyn, cafwyd galwad gan 1 ymatebydd am arweiniad ymarferol i helpu ysgolion i olrhain ac adrodd ar ddilyniant y Gymraeg yn fwy effeithiol. Y farn oedd ei bod yn hanfodol ymgorffori'r olrhain hwn o fewn strategaethau ehangach gwella ysgolion. Gallai dull mwy cydgysylltiedig - dilyn teithiau iaith dysgwyr ar draws gwahanol ffrydiau ac ysgolion - helpu i gynnal astudiaethau cyfrwng Cymraeg a helpu i ddal gafael ar yr iaith yn hirdymor.

Awgrymwyd hefyd annog adrodd dwyieithog er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r Gymraeg yn weladwy, yn enwedig mewn ysgolion sydd â charfannau bach eu maint, fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau deuol.

Roedd un ymateb yn cydnabod bod y Fframwaith 14 i 16 wedi'i gynllunio i sicrhau triniaeth gyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas â safonau adrodd a chyhoeddi data yn y ddwy iaith, ond yn dadlau bod cyflawni hyn yn ymarferol yn heriol oherwydd prinder staff. Yn benodol, amlygwyd yr anhawster wrth recriwtio athrawon Cymraeg fel rhwystr sylweddol. Fel y nododd 1 ymatebydd, mae’r Fframwaith 14 i 16 yn trin y ddwy iaith yn gyfartal, a dylai sicrhau bod ysgolion hefyd yn gwneud hynny, ond roedd yn teimlo nad oes gan rai ysgolion y staff i gyflawni’r gofyniad hwn.

Un awgrym oedd bod yn rhaid i'r Fframwaith 14 i 16 dynnu sylw diamwys at bwysigrwydd cymwysterau Cymraeg fel rhan o'r hawl gyffredinol i ddysgwr. Drwy wneud hynny, roedd yr ymatebydd yn teimlo y byddai hyn yn annog ysgolion i flaenoriaethu addysg Gymraeg a chefnogi'r uchelgeisiau cenedlaethol ehangach i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ar draws addysg a chymdeithas. Roedd yr ymatebwyr yn nodi hefyd y gallai pwyslais y Fframwaith 14 i 16 ar gymwysterau a lefelau cyrhaeddiad chwarae rhan bwysig wrth gefnogi nodau cenedlaethol, yn enwedig os yw ysgolion yn cael eu cymell i gynnig a hyrwyddo amrediad eang o gymwysterau a llwybrau cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal, amlygodd 1 ymatebydd fwlch sylweddol yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd ar barhad astudio’r Gymraeg. Ar hyn o bryd, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am niferoedd dysgwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt bontio rhwng Blynyddoedd 9 a 10. Awgrymwyd y dylai'r Fframwaith 14 i 16 sicrhau cyhoeddi data am y cyfraddau dilyniant hyn, yn ogystal â nifer y dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau cymhwyso (heblaw y Gymraeg ei hun) drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai gwella tryloywder data yn y meysydd hyn yn galluogi monitro llwybrau

addysg cyfrwng Cymraeg yn well ac yn helpu i nodi meysydd lle gallai fod angen cymorth neu ymyrraeth ychwanegol.

Yn olaf, y tu hwnt i gymwysterau, pwysleisiodd 2 ymatebydd bwysigrwydd meithrin hyder yn y Gymraeg ac ennyn diddordeb ynddi —gan gydnabod bod cysylltiad diwylliannol a phrofiadau cadarnhaol yn allweddol i gynnal ei defnydd po ddydd i ddydd.

## Cwestiwn 22 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd.

Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol gan 14 o ymatebwyr, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o safbwyntiau gan gynnwys rhai perthnasol a llai perthnasol i'r cwestiynau ymgynghori a ofynnwyd. Roedd camddealltwriaeth yn cael ei chyfleu gan ymatebwyr a oedd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch cyhoeddi data perfformiad ysgolion, a allai arwain at arddangos perfformiad neu fanipiwleiddio. Mae hyn er gwaethaf bod y ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir ei bwriad i osgoi system atebolrwydd sy'n seiliedig ar berfformiad. Dywedodd ymatebwyr hefyd eu bod yn ffafrio platfform preifat ar gyfer dadansoddi a chydweithio, ac yn pwysleisio'r angen am brofion peilot ymgynghorol, a chydnawsedd â'r Cwricwlwm i Gymru.

Dywedodd un ymatebydd ei fod yn deall mai'r farn yw bod un fersiwn gyhoeddus/broffesiynol yn anymarferol; gall fod yn rhy gymhleth i'r cyhoedd ac yn rhy syml i weithwyr proffesiynol.

Roedd un ymatebydd yn beirniadu'r diffyg ymgynghori ymlaen llaw â'r proffesiwn a'r cymdeithasau perthnasol cyn cyhoeddi'r cynigion, tra galwodd ymatebydd arall am fwy o bwyslais ar addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd er mwyn cynhyrchu siaradwyr mwy rhugl.

Roedd un ymatebydd yn pwysleisio'r angen am brofion peilot, a mwy o gyflwyno fesul cam. Byddai hyn yn caniatáu cyfle i nodi risgiau ac osgoi beichiau llwyth gwaith. Galwodd yr ymatebydd hwn hefyd am eglurder pwrpas, preifatrwydd data, a mwy o fuddsoddiad mewn dysgu proffesiynol. Roedd yn rhybuddio yn erbyn data yn cael ei ddefnyddio ar gyfer atebolrwydd neu gystadleuaeth, rhywbeth mae'n credu eu bod yn tanseilio cydweithredu a llesiant dysgwyr.

Roedd gan ymatebydd arall bryderon am bwysau atebolrwydd camarweiniol, gan arwain at "chwarae'r gêm" (e.e. canolbwyntio ar ddisgyblion ffiniol). Roedd yn esbonio, fel mae llawer o rai eraill wedi'i wneud, y gall y trothwy 50 ymgeisydd ystumio data ac annog manipiwleiddio. Roedd hefyd yn teimlo bod y diffyg data perfformiad pynciau cronnol yn gwneud cymariaethau ystyrlon yn anodd. Codwyd y pwynt hwn dro ar ôl tro gan ymatebwyr ynghylch amrywiaeth o gwestiynau'r ymgynghoriad.

Soniodd un ymatebydd sut y gall y cynigion presennol wrth-ddweud ysbryd y Cwricwlwm i Gymru trwy orbwysleisio canlyniadau mesuradwy. Roedd yn amlinellu risgiau o ran cynyddu llwyth gwaith athrawon, niweidio llesiant staff, ac llesteirio recriwtio. Roedd yn teimlo y gallai pwysau anghymesur ddisgyn ar bynciau craidd, gan greu annhegwch a straen i staff a dysgwyr.

Soniodd un ymatebydd sut mae addysgu pynciau addysg cydberthynas a rhywioldeb a chrefydd, gwerthoedd a moeseg yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion, sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd safoni adrodd neu asesu canlyniadau cyson ledled Cymru. Roedd yn teimlo y bydd yn anodd gwneud diffiniadau'n glir ar fesur canlyniadau ar gyfer y pynciau hyn.

Nodwyd gan un ymatebydd na ddylid cyflwyno cynigion heb gynnal Asesiad Effaith Llwyth Gwaith yn gyntaf gan fod pryder yn parhau am lwyth gwaith i athrawon a rhanddeiliaid.

Roedd cwestiynau yn parhau ynghylch sut y gall awdurdodau lleol gefnogi ysgolion i nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w datblygu os yw'r cynigion yn arwain at ysgolion yn cynhyrchu cynnwys gwahanol. Roedd cwestiynau yn dal i fod ar sut y byddai awdurdodau lleol yn defnyddio'r wybodaeth hon, o ystyried swm ac amrywiaeth y data ar draws pob ysgol.

Roedd cwestiynau hefyd ynghylch pa wybodaeth fyddai ar gael i randdeiliaid fel darparwyr addysg bellach a chyflogwyr ynghylch gofynion cyffredinol cyrhaeddiad disgyblion ar gyfer y camau nesaf yn eu llwybrau dilyniant, ynghyd â chyfleoedd datblygiad proffesiynol i sicrhau bod addysgwyr yn cael yr hyfforddiant cywir i weithredu’r newidiadau.

Teimlai un ymatebydd fod gan egwyddorion y Fframwaith 14 i 16 y potensial i greu dull mwy cytbwys a chynaliadwy o ddefnyddio data mewn ysgolion. Fodd bynnag, heb weithredu gofalus, canllawiau clir, a buddsoddi mewn offer digidol, teimlai fod risg o gynyddu llwyth gwaith i arweinwyr ysgol ac athrawon. Er mwyn gwneud y system yn wirioneddol gyfeillgar i'r gweithlu, rhaid i ymdrechion ganolbwyntio ar symleiddio prosesau a lleihau dyblygu.

Lle mai’r disgwyl yw y bydd ysgolion yn cyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefannau ar eu trafodaethau cymorth ynghylch cynllunio a nodi opsiynau, cynllunio gyrfaoedd, hwyluso profiad gwaith a chyd-drafod â chyflogwyr, sut maent yn sicrhau cyfranogiad a pha mor llwyddiannus ydyn nhw yn hyn, roedd barn gyffredin y dylai ysgolion gael canllawiau clir ar yr isafswm y bydd angen iddynt ei gyhoeddi er mwyn sicrhau darlun cyson ledled Cymru. Er hyn, roedd llawer yn parhau i fod yn gefnogol iawn i'r dull o ddatblygu dangosyddion ar gyfer data cyrchfannau i adrodd ar garfannau blaenorol sydd wedi symud ymlaen i addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu ddim o'r rhain.

Yn olaf, roedd 1 ymatebydd yn teimlo bod defnyddio prydau ysgol am ddim fel mesur procsi ar gyfer plant o gefndir difreintiedig yn broblem. Esboniodd nad yw'n glir beth a olygir gyda chymhwysedd am brydau ysgol am ddim yn yr ymgynghoriad cyffredinol, gan nad yw'n glir sut mae hyn yn fuddiol i fesur dangosyddion perfformiad.

# Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer dull o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwelliant a'r Fframwaith Dangosyddion Hawl i Ddysgu 14 i 16. Bu'r ymgynghoriad ar waith rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2025 a derbyniodd 34 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a 19 o ymatebion trwy flwch negeseuon e-bost Llywodraeth Cymru. Canfuwyd bod un o'r ymatebion e-bost hyn yn ymateb dyblyg.

Roedd y 22 o gwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ymatebwyr roi adborth helaeth ar y pynciau ymgynghori y rhoddwyd sylw iddynt. Fodd bynnag, derbyniodd yr ymgynghoriad amrywiaeth o ymatebion negyddol, a oedd yn aml yn canolbwyntio ar faterion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad neu'n seiliedig ar gamddehongliadau. Yn ogystal, daeth patrwm i'r amlwg lle'r oedd ymatebwyr yn mynegi cytundeb gyda rhai datganiadau ond wedyn yn rhoi sylwadau ategol negyddol yn unig.

Er mwyn ategu'r ymgynghori uniongyrchol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru 12 o ddigwyddiadau gydag arweinwyr ysgolion ledled Cymru, gyda mwy na 500 o arweinwyr ysgolion uwchradd yn eu mynychu. O fewn y digwyddiadau hyn, trefnwyd gweithdy i ystyried defnyddio'r data a'r wybodaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr 14 i 16 oed, yn ogystal â'r Fframwaith 14 i 16 – daeth tua 150 o fynychwyr i'r gweithdy hwn (rhwng y 12 o ddigwyddiadau). Er gwaethaf hyn, cymysg oedd yr adborth cyffredinol ar y newidiadau arfaethedig, yn rhannol oherwydd pryderon a oedd yn parhau yn sgil profiadau yn y gorffennol o ddiwylliannau perfformiad amddiffynnol neu gystadleuol.

Roedd lefelau ymatebion cyffredinol yn isel, ac roedd llawer o atebion yn adlewyrchu dryswch ynghylch y cynigion. Roedd rhai ymatebwyr yn ymdrin â materion a oedd yn fwy addas i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad, yn enwedig tua'r dechrau, gyda sylwebaeth yn canolbwyntio ar ddangosyddion penodol yn y Fframwaith 14 i 16 yn hytrach nag ar egwyddorion ehangach yr ecosystem wybodaeth. Mewn achosion o'r fath, rhoddodd y dadansoddiad flaenoriaeth i'r atebion mwyaf perthnasol i bob cwestiwn wrth grynhoi'r data.

Canfuwyd y themâu allweddol canlynol a ddaeth i'r amlwg fel rhan o'r ymgynghoriad:

**Cytundeb ag Egwyddorion yr Ecosystem Gwybodaeth**

- Cefnogaeth helaeth i egwyddorion yr ecosystem gwybodaeth o ganlyniad i'w natur eang, cytbwys a chydnawsedd â'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cydlyniaeth ag ethos y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig wrth annog symud oddi wrth fesurau perfformiad sy'n gor-symleiddio a chanolbwyntio ar gynnydd ehangach dysgwyr y tu hwnt i fetrigau academaidd.

**Rhwystrau rhag Cefnogi Dysgu**

- Mae ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd yn rhwystrau sylweddol, ond nid yr unig rai sy'n effeithio ar gynnydd dysgwyr.

- Mae diffyg profi safonedig cyn 16 oed yn llesteirio hunan-werthuso cywir ac atebolrwydd mewn ysgolion. Crybwyllwyd hyn hefyd yng nghyd-destun gwybodaeth i gefnogi pontio a chynrychioli'r gwerth a ychwanegir mewn ysgolion uwchradd.

**Cwricwlwm ac Asesu**

- Pryderon ynghylch culhau'r cwricwlwm, gyda chanolbwyntio ar ddata llythrennedd a rhifedd ar draul pynciau creadigol.
- Gall eithrio pynciau carfannau bach o'r dangosyddion gyfyngu ar amrywiaeth y cwricwlwm.
- Yr angen am fesur ychwanegu gwerth i olrhain cynnydd dysgwyr dros amser, yn hytrach na dibynnu ar ganlyniadau cyrhaeddiad yn unig.

**Casglu ac Adrodd Data**

- Pryderon amlwg ynghylch y trothwy o 50 ymgeisydd ar gyfer cyhoeddi data dyfarniadau, yn ogystal â phryderon o risg i ysgolion chwarae'r system trwy ganolbwyntio'n ormodol ar y trothwy o 50, gydag awgrym o annhegwch rhwng ysgolion sydd â charfannau llai eu maint ac o anghysondeb.
- Gallai cymhlethdod a swm y data sy'n ofynnol gan y Fframwaith 14 i 16 gynyddu beichiau gweinyddol ar ysgolion.
- Mae risg o ddata'n cael ei ddefnyddio i ddibenion atebolrwydd nas bwriadwyd, gan gynyddu straen a chystadleuaeth.
- Pwysigrwydd sicrhau bod data yn ystyrlon ac ar gael yn rhwydd i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys rhieni a dysgwyr.

**Effeithiau disgwyliedig ar y gweithlu a llwyth gwaith**

- Cafodd y newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â chasglu ac adrodd data eu categoreiddio fel risg o safbwynt cynnydd canfyddedig mewn llwyth gwaith a phwysau ar staff, a allai o bosibl effeithio'n negyddol ar eu llesiant.
- Roedd y meysydd penodol o risg a nodwyd yn cynnwys y canolbwyntio anghymesur ar bynciau mwy, dehongli dangosyddion fel rhywbeth sy'n creu amgylchedd o atebolrwydd ac o gymharu ysgolion â'i gilydd a'r cymhlethdod canfyddedig o safbwynt y fformat ar gyfer adrodd data i ddibenion hunan-werthuso. Roedd y gofyn i adrodd yn ddwyieithog ar dermau cyfartal hefyd yn cael ei weld fel ffactor a fyddai'n arwain yn anochel at fwy o faich ar staff.

**Canllawiau Cliriach**

- Roedd galwadau am ganllawiau cliriach ar sut mae egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn cael ei gweithredu'n ymarferol mewn ysgolion, yn enwedig o safbwyntio defnyddio data cyd-destunol.
- Byddai canllawiau cliriach yn sicrhau tryloywder a chysondeb wrth adrodd er mwyn cynnal ansawdd data ac adrodd effeithiol, yn enwedig wrth adrodd ar brofiadau dysgu ehanch a sicrhau gweithredu unffurf rhwng gwahanol ysgolion a'i gilydd.
- Canfuwyd heriau wrth gyfleu nodau'r ymgynghoriad gyda chynulleidfaoedd allanol oherwydd natur gymharol dechnegol y fframwaith a'r dangosyddion arfaethedig. Bydd angen archwilio dulliau newydd er mwyn gallu cyfathrebu mewn ffordd ystyrlon a chyd-destunol â chynulleidfaoedd allanol yn y dyfodol.

**Effaith ar y Gymraeg**

- Roedd ymatebwyr ym amlygu cyfle'r Fframwaith 14 i 16 i wella'r Gymraeg trwy ei intregreiddio'n gryfach â'r cwricwlwm, gwell staffio, cymwysterau cynhwysol, ac amgylchedd ysgol mwy dwyieithog.
- Roedd yr heriau a amlygwyd, er eu bod y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys prinder staff rhugl eu Cymraeg ac angen ehangach am newid diwylliannol i gynyddu defnydd naturiol a gwerth y Gymraeg ymysg dysgwyr.
- Er bod hyn yn rhannol y tu allan i gwmpas y cwestiynau penodol a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad hwn, roedd rhai awgrymiadau'n canolbwyntio ar olrhain data yn well, cynnig canllawiau cliriach, galluogi adrodd dwyieithog, mynd i'r afael â bylchau mewn adnoddau, a blaenoriaethu'r Gymraeg yn ddiamwys o fewn y fframwaith er mwyn cefnogi nodau iaith cenedlaethol.

## Atodiadau

### Atodiad A – Methodoleg

Ar ôl creu fframwaith ymchwil a chronfa ddata, cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad eu codio â llaw a'u dadansoddi gan o leiaf ddau ymchwilydd fesul cwestiwn, a'u codio wedyn gan ddefnyddio dadansoddiad thematig. Cafodd themâu a phatrymau cyffredin eu llunio a'u hamlygu, gydag ymchwilwyr yn cydweithio i gynhyrchu crynodeb cynhwysfawr o ymatebion. Cafodd pob ymateb eu dadansoddi drwy gyfrwng yr iaith y cawsant eu cyflwyno ynddi, gan olygu bod ymatebion Cymraeg yn cael eu dadansoddi drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn caniatáu ar gyfer dealltwriaeth lawn a chynnil o ystyr yr ymatebion. Lle'r oedd ymatebion wedi croesgyfeirio elfennau cynharach o'u hymatebion neu wedi ailadrodd cynnwys air am air o gwestiwn i gwestiwn, cafodd yr enghraifft gyntaf o'r ymateb hwn ei blaenoriaethu wrth ddadansoddi. Cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad eu prosesu a'u dadansoddi wrth ddefnyddio Excel a'r meddalwedd mapio meddwl Miro. Cafodd pob cwestiwn categori eu dadansoddi trwy ddefnyddio Tablau Colynnu Microsoft Excel a chrewyd siartiau bar i gyflwyno'r cysylltiadau yn y data.

Lle canfuwyd bod ymateb dyblyg wedi ei dderbyn: Er bod gennym ddyletswydd wrth weithio ar ran Llywodraeth Cymru i adrodd trwch yr adborth a dderbyniwyd o ymgynghoriad ffurfiol, nid yw'n angenrheidiol mesur y trwch hwnnw. Felly, unwaith yn unig y caiff yr ymateb sydd union yr un fath mewn cynnwys ac felly ni roddwyd mwy o bwysau iddo nag i ymateb unigryw.

I ategu'r ymgynghoriad ffurfiol, cyflawnwyd gweithgarwch ychwanegol gyda grwpiau blaenoriaeth. Cynhaliwyd deuddeg o ddigwyddiadau arweinyddiaeth gyda'r mynychwyr yn cael eu hannog i gyflwyno ymateb ar ffurflen ar ôl y digwyddiad. Roedd y niferoedd o fynychwyr a gyflwynodd ymatebion yn is na'r disgwyl ac felly cymerwyd nodiadau yn ystod y digwyddiad gan Lywodraeth Cymru i gyfleu teimlad mynychwyr. Mae adborth o weithgarwch mewnol hefyd wedi cael ei gyfleu trwy ffurflen. Caiff adborth o'r gweithgarwch ychwanegol hwn y tu allan i'r prif ymgynghoriad ei ddadansoddi ar wahân, ond bydd yn ategu'r canfyddiadau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Atodiad B – Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn cyd-fynd ag ethos ac uchelgeisiau ein Cwricwlwm i Gymru?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 2 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cymesur er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella (dull sy'n sicrhau bod y dysgwr wrth wraidd y broses ac nad yw'n annog system berfformiadol a arweinir gan atebolrwydd)?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 3 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cynaliadwy er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 4 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn fodd i feithrin dealltwriaeth gytbwys a chyfannol o ysgolion a dysgu ymhlith cynulleidfaoedd allanol, fel rhieni a gofalwyr?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 5 –** A oes unrhyw egwyddorion neu agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r ecosystem wybodaeth arfaethedig y dylid eu hychwanegu?

**Cwestiwn 6 –** Beth fydd effaith egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y gweithlu, gan gynnwys unrhyw effaith bosibl ar lwyth gwaith?

**Cwestiwn 7 –** Beth yw eich barn ar egwyddorion yr ecosystem wybodaeth o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y dysgwyr hynny o gefndiroedd dan anfantais a'r dysgwyr hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?

**Cwestiwn 8 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (y Fframwaith 14 i 16) yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16

gan gefnogi ein huchelgeisiau ehangach fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru ar yr un pryd?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 9 –** A ddylai unrhyw ddangosyddion ychwanegol gael eu cynnwys yn y fframwaith hwn er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant yn llawn? Rhowch fanylion.

| Dylai | ☐ | Na ddylai | ☐ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 10 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod sefydlu'r Fframwaith 14 i 16 yn cynorthwyo'r broses o gyfleu cwricwla a dysgu 14 i 16 mewn modd cydlynol yng nghyd-destunau ysgolion eu hunain, gan alluogi dealltwriaeth ystyrlon a theg?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 11 –** Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd wrth newid i ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16?

**Cwestiwn 12 –** Beth arall y bydd angen inni ei ystyried wrth ddechrau cysoni ein systemau adrodd sy'n darparu setiau data i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi prosesau hunanwerthuso gan ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16 hwn sydd ar gael i'r cyhoedd?

**Cwestiwn 13 –** A fydd angen canllawiau penodol ar yr agweddau ar y Fframwaith 14 i 16 lle y disgwylir i ysgolion ddarparu gwybodaeth? Rhowch fanylion.

| Bydd | ☐ | Na fydd | ☐ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 14 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Fframwaith 14 i 16 yn helpu i ganolbwyntio ar nodau cyffredin Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 15 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd y Fframwaith 14 i 16 yn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu ac yn ei alluogi i barhau i ganolbwyntio ar ddarparu ar gyfer dysgwyr a'u helpu i wneud cynnydd?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 16 –** Beth fydd effaith y Fframwaith 14 i 16 ar y gweithlu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar lwyth gwaith?

**Cwestiwn 17 –** Beth yw eich barn ar effaith y Fframwaith 14 i 16 o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?

**Cwestiwn 18 –** Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac effeithiau egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 19 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 20 –** Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith 14 i 16 ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 21 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Fframwaith 14 i 16 er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu'n lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 22** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd.